# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD IAU,<br>13 MEHEFIN 2019 am 2.00 o'r gloch yp | THURSDAY,<br>13 JUNE, 2019 at 2.00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1,<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COMMITTEE ROOM 1,<br>COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor — Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O. Jones **(Cadeirydd/Chair),** Dafydd Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Nicola Roberts

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Kenneth P Hughes, R.Ll.Jones

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Glyn Haynes **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Ms. Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Mr. Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

# R H A G L E N

**1** **YMDDIHEURIADAU**

**2** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, cofnodion y cyfarfodydd fel a ganlyn:-

- 9 Ebrill, 2019
- 14 Mai, 2019 (Ethol Cadeirydd a Is-gadeirydd)

**4** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 9 - 10)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

**"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12A, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**5** **CONTRACT CASGLU GWASTRAFF A GLANHAU STRYDOEDD** (Tudalennau 11 - 64)

Derbyn adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) /Swyddog 151 ar Pennaeth Dros Dro (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)

**6** **PARTNERIAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL GWYNEDD A MÔN** (Tudalennau 65 - 104)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

**7** **ADRODDIAD BLYNYDDOL - BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS** (Tudalennau 105 - 114)

Cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoedd.

**8** **AELODAETH Y PANEL SGRIWTINI CYLLID** (Tudalennau 115 - 118)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

**9** **RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 119 - 132)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ebrill 2019

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Margaret M Roberts a Nicola Roberts.<br><br>Y Cynghorydd R A Dew - Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (ar gyfer eitem 4).<br><br>Y Cynghorydd R Meirion Jones - Aelod Portffolio Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant (ar gyfer eitem 5).<br><br>Mrs Anest Frazer – Yr Eglwys yng Nghymru,<br>Mr Keith Roberts – Yr Eglwys Gatholig Rufeinig<br>Mr Dafydd Gruffydd – Rheolwr Gyfarwyddwr – Menter Môn |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau),<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (ar gyfer eitem 4),<br>Prif Swyddog Cynllunio (DFJ) (ar gyfer eitem 4),<br>Uwch Reolwr Safonau a Chynhwysiant (GMH) (ar gyfer eitem 5),<br>Rheolwr Sgriwtini (AD),<br>Swyddog Sgriwtini (GWR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, K P Hughes. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos M Huws – Arweinydd y Cyngor |

---

### 1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodwyd uchod.

### 2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Nicola Roberts ddiddordeb sy’n rhagfarnu yn eitem 4 – Canllaw Cynllunio Atodol – Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy (Drafft yn dilyn Ymgynghoriad Cyhoeddus) ac nid oedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth na’r bleidlais ar y mater.

Mewn perthynas â thrafodaethau ar eitem 4 – Canllaw Cynllunio Atodol – Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy (Drafft yn dilyn Ymgynghoriad Cyhoeddus), datganodd y Cynghorwyr T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes a Dafydd Roberts eu bod yn aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

Dywedodd y Cynghorydd R A Dew, er nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini, ei fod yn datgan diddordeb mewn perthynas ag eitem 4 – Canllaw Cynllunio Atodol – Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy (Drafft yn dilyn Ymgynghoriad Cyhoeddus).

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth, 2019 yn gywir.

**4 CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL – CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY (DRAFFT YN DILYN YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS)**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolwr Polisi Cynllunio – Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (Gwynedd a Môn) mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd fod y Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn ym mis Gorffennaf 2017 a'i fod yn weithredol am y cyfnod hyd at 2026. Er bod y Cynllun Datblygu'n cynnwys polisïau sy'n caniatáu i'r Awdurdod Cynllunio Lleol wneud penderfyniadau cyson a thryloyw ar geisiadau datblygu, nid yw'n gallu darparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar Swyddogion a darpar ymgeiswyr i lywio cynigion yn lleol. Er mwyn darparu'r wybodaeth fanwl hon, mae'r Cynghorau'n paratoi cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) i gefnogi'r Cynllun a darparu canllawiau manylach ar amrywiaeth o bynciau a materion er mwyn cynorthwyo i ddehongli a gweithredu polisïau a chynigion y Cynllun. Rhoddodd Aelodau'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (sydd yn cynnwys nifer cyfartal o aelodau o Wynedd ac Ynys Môn) ystyriaeth i'r drafft cychwynnol ac, yn dilyn ymgynghori ar y CCA, bydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn penderfynu a yw'r canllaw yn addas i'w fabwysiadau yn ei gyfarfod ar 23 Mai, 2019.

Adroddodd y Prif Swyddog Cynllunio mai pwrpas yr adroddiad yw codi ymwybyddiaeth aelodau'r Panel Sgriwtini am ddatblygiad y Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy er mwyn sicrhau y creffir arno cyn i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd benderfynu a yw'n addas i'w fabwysiadu yn ei gyfarfod ar 23 Mai, 2019. Nodwyd fod y Pwyllgor Craffu Cymunedau (Cyngor Gwynedd) wedi trafod yr adroddiad ar 4 Ebrill, 2019. Ar ôl iddo gael ei gymeradwyo, bydd y canllaw yn ystyriaeth cynllunio perthnasol wrth ddelio gyda cheisiadau cynllunio a bydd rhaid i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ddilyn y canllawiau o fewn y CCA. Yn ogystal bydd Llywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio yn rhoi pwys i Ganllawiau Cynllunio Atodol sy'n gyson â chynlluniau datblygu lleol.

Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol yn ceisio sicrhau fod y Polisïau canlynol yn ymwneud â datblygu cynaliadwy yn cael eu hymgorffori yn y broses ddatblygu:-

- PS1 – Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig;
- PS5 - Datblygu Cynaliadwy
- PS6 – Lliniaru effeithiau Newid Hinsawdd

Pwrpas y CCA a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn yn darparu canllawiau manwl ar bolisïau penodol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac yn gyson ar draws ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Ni all canllawiau newid polisïau neu gynigion a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol ac ni ellir cyflwyno polisïau newydd trwy Ganllawiau Cynllunio Atodol.

Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio fod Atodiad 1 yr adroddiad yn cyfeirio at yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd mewn perthynas â'r CCA rhwng 3 Rhagfyr 2018 a 31 Ionawr 2019. Nodwyd y derbyniwyd 88 o sylwadau gan 8 o gynrychiolwyr/sefydliadau; cafodd y rhan fwyaf o'r sylwadau eu derbyn heblaw am y materion a gyflwynwyd a oedd yn golygu newid polisïau cynllunio neu a oedd yn cyfeirio at faterion yr oedd y CCA yn mynd i'r afael â nhw'n barod. Mae Atodiad 2 ynghlwm i'r adroddiad yn gopi drafft o'r CCA. Fodd bynnag, mae angen golygu'r adroddiad er mwyn cynnwys yr holl newidiadau a argymhellwyd.

Rhennir y Canllaw yn dair Adran. Mae Adran 1 yn darparu canllawiau ar bolisïau o fewn y Cynllun sydd yn caniatáu datblygiadau sy'n hanfodol i greu lleoedd nodedig a chynaliadwy. Mae Adran 2 (a'r rhan fwyaf o Atodiadau'r Canllaw) yn ymdrin yn benodol â sut i gymhwyso Polisi PS1, Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig. Mae Atodiad 6 yn rhoi enghreifftiau o gamau/gweithgareddau y gellir eu hymgorffori mewn datblygiadau a/neu ofyn amdanynt er mwyn gwneud y datblygiad yn dderbyniol (mewn perthynas â chynllunio defnydd tir). Mae Atodiadau 7 ac 8 yn darparu methodoleg ar gyfer cynnal asesiadau effaith perthnasol. Mae Adran 3 yn nodi arolygon a dogfennau y mae'n rhaid eu cyflwyno gyda'r cais cynllunio, yn ddibynnol ar natur, graddfa a lleoliad y datblygiadau arfaethedig.

Amlinellodd y Swyddog y camau nesaf a'r amserlen mewn perthynas â'r CCA a nododd y bydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, yn ei gyfarfod ar 23 Mai 2019, yn ystyried y sylwadau a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio; yr adborth a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus; copi drafft terfynol o'r Canllaw Cynllunio Atodol er mwyn penderfynu a yw'r Canllaw'n addas i'w fabwysiadu (ac, o ganlyniad, gymryd lle'r Canllaw Cynllunio Atodol presennol sy'n rhoi sylw i'r pwnc hwn).

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a chodwyd y prif faterion canlynol:-

- Cyfeiriwyd at y ffaith y derbyniwyd 88 o sylwadau ar y CCA. Gofynnwyd a oedd y gwasanaeth yn siomedig â nifer y sylwadau a dderbyniwyd a nodwyd na dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan Gynghorau Cymuned ar Ynys Môn. Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio fod yr holl Gynghorau Cymuned wedi cael cyfle i ymateb ond ei bod yn bwysig nodi mai sylwedd y sylwadau sy'n bwysig o safbwynt y CCA; mae'r holl sylwadau a dderbyniwyd wedi bod yn rhai adeiladol;
- Gofynnwyd a fyddai'r CCA yn arwain at newid polisïau cynllunio mewn amser. Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio fod y cynllun yn cael ei fonitro'n barhaus ac

y defnyddir dangosyddion perfformiad fel rhan o’r broses honno ac y gallai hynny arwain at newid polisïau cynllunio.

- Gofynnwyd a yw’r broses o fewn y broses gynllunio yn ddigon cadarn i ddiogelu’r Iaith Gymraeg a’r diwylliant mewn cymunedau gwledig pan gyflwynir cais cynllunio mawr. Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio nad yw’r CCA presennol a ddefnyddir ar hyn o bryd (a fabwysiadwyd o dan y cynllun datblygu blaenorol) yn darparu’r canllawiau mwyaf diweddar o ran methodoleg yn ymwneud ag asesiadau iaith. Bydd y CCA drafft a gyflwynwyd i’r Pwyllgor hwn yn darparu canllawiau i ddatblygwyr ynglŷn â phrosesau angenrheidiol ac yn sicrhau fod gwybodaeth graidd ynglŷn â’r Iaith Gymraeg a diwylliant yn cael ei gyflwyno gyda cheisiadau cynllunio ac yn caniatáu i datblygwyr ddiffinio gofynion y CCA o fewn y cyd-destun hwn;
- Cyfeiriwyd at y ffaith y gallai penderfyniadau a wneir gan y ddau Bwyllgor Cynllunio gael eu herio a bod modd cyflwyno apêl i Lywodraeth Cymru. Cwestiynwyd a yw’r CCA a gyflwynwyd i’r Pwyllgor hwn yn ddigon cadarn i fedru herio penderfyniadau apêl. Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio fod Llywodraeth Cymru yn rhoi pwys sylweddol ar Ganllawiau Cynllunio Atodol sy’n gyson â’r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd;
- Nodwyd y gallai datblygiadau mawr posib ar yr Ynys, h.y. datblygiadau Bluestone a Thraeth Newry, gael effaith ar yr Iaith Gymraeg. Dywedodd yr Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd mai pwrpas y canllawiau o fewn y CCA yw diogelu a chryfhau’r Iaith Gymraeg. Bu’r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn trafod y canllaw ers mis Medi 2017;
- Nodwyd y gallai datblygiad bach yn unig gael effaith ar ethos yr Iaith Gymraeg mewn ardal wledig. Cwestiynwyd sut y gallai’r CCA ddiogelu datblygiad o’r fath mewn ardaloedd gwledig. Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio fod y CCA yn rhoi sylw i ddatblygiadau mewn trefi mawr o fewn y ddau awdurdod lleol a phan gyflwynir ceisiadau cynllunio am 10 neu fwy o anheddau, rhaid cyflwyno asesiad o’r effaith ar yr Iaith Gymraeg gyda’r cais. Fodd bynnag, os yw ardal wledig wedi ei dynodi yn ardal ddatblygu a bod cais yn cael ei gyflwyno sydd yn ychwanegol i’r lleiafswm a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, yna byddai rhaid cynnal asesiad o’r effaith ar yr Iaith Gymraeg. Bydd rhaid i ddatblygwyr ddefnyddio unigolion proffesiynol i gynhyrchu asesiad effaith ar yr Iaith Gymraeg a Diwylliant.

**PENDERFYNWYD derbyn y Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy fel y’i cyflwynwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad.**

**GWEITHREDU: Hysbysu’r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd fod Cyngor Sir Ynys Môn wedi derbyn y Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy.**

## 5 ADRODDIAD CYNNYDD Y PANEL SGRIWTINI ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION

Cyflwynwyd – adroddiad cynnydd gan Gadeirydd y Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion a’r Uwch Reolwr Safonau a Chynhwysiant.

Dywedodd y Cadeirydd fod cynrychiolwyr y Pwyllgor wedi bod yn cysgodi gweithgareddau GwE yn ddiweddar yn Ysgol y Borth, Porthaethwy; wedi mynychu Cynhadledd ar gyfer Penaethiaid Ysgolion Gogledd Cymru yn Venue Cymru, Llandudno gyda Shirley Clarke, yr arbenigwraig addysg, yn annerch y Gynhadledd; a sesiwn hyfforddiant gan GwE ar Gwricwlwm Cymru. Nododd y Cadeirydd y bydd yr Aelodau yn adrodd i'r Pwyllgor hwn maes o law ar y gweithgareddau a drefnwyd gan GwE.

Adroddodd yr Uwch Reolwr Safonau a Chynhwysiant fod yr adroddiad yn crynhoi gwaith y Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion yn ystod y cyfnod 7 Tachwedd, 2018 i 2 Ebrill, 2019. Mae'r Panel wedi cyfarfod â Phenaethiaid Ysgolion a Chadeiryddion Llywodraethwyr ac wedi trafod trefniadau i gysgodi swyddogion GwE mewn nifer o weithgareddau.

Cyfarfu'r Panel fel a ganlyn:-

- 22 Tachwedd, 2018 – Ysgol Gynradd Corn Hir ac Ysgol Gynradd Henblas;
- 13 Rhagfyr, 2018 – Ysgol Uwchradd David Hughes a monitro Cynllun Gweithredu'r Gwasanaeth Dysgu;
- 24 Ionawr, 2019 – Ysgol Gynradd Bodedern
- 15 Chwefror, 2019 – Ysgol Gynradd Llanfairpwll ac Ysgol Gynradd Santes Fair;
- 22 Mawrth, 2019 – Ystyried trefniadau cysgodi swyddogion GwE a hunan arfarniad.

Dywedodd y Swyddog fod y Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion wedi meithrin gwell dealltwriaeth o'r broses gydweithio rhwng yr Awdurdod Addysg a GwE ac wedi cryfhau atebolrwydd o fewn ysgolion Ynys Môn. Nodwyd nad oes yr un ysgol yn Ynys Môn yn y categori coch ac mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yn y categori melyn yn nhablau perfformiad newydd Llywodraeth Cymru.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a chodwyd y materion canlynol:-

- Ystyriwyd y dylid rhoi cyfle i bob Aelod o'r Cyngor dderbyn gwybodaeth am y cwricwlwm addysg newydd a'r gwasanaethau a ddarperir gan GwE. Adroddodd y Prif Weithredwr fod trefniadau wedi'u gwneud i gynrychiolwyr o GwE fynychu cyfarfod Briffio Aelodau yn y dyfodol agos i gyflwyno gwybodaeth am y cwricwlwm addysg ac i drafod y ddeddf anghenion dysgu ychwanegol newydd;
- Cyfeiriwyd at doriadau ariannol o fewn ysgolion yn gyffredinol ac effaith bosib hynny ar safonau addysgol. Gofynnwyd a yw'r Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion wedi trafod y mater hwn. Dywedodd yr Uwch Reolwr Safonau a Chynhwysiant y bydd y sefyllfa ariannol yn heriol i ysgolion yn y dyfodol. Nododd y bydd rhaid i ysgolion ganfod ffyrdd mwy effeithiol o ddarparu'r addysg orau i ddisgyblion.

Diolchodd yr Aelod Portffolio Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant i'r Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion am eu gwaith a dywedodd fod gwaith y Panel wedi cyfrannu at welliannau o fewn ysgolion ar Ynys Môn a'r cydweithio gyda GwE i godi safonau.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cytuno fod y Panel yn herio perfformiad ysgolion unigol yn gadarn;**
- **Nodi fod y Panel yn canolbwyntio ar ddatblygu trefniadau cysgodi gyda GwE er mwyn caniatáu i Aelodau fynychu amryw o ddigwyddiadau monitro, cefnogi a hyfforddi mewn ysgolion;**
- **Nodi y bydd y Panel yn parhau i fonitro gweithrediad Cynllun Monitro'r Gwasanaeth Dysgu;**
- **Nad yw'r Panel yn ymwybodol o unrhyw negeseuon allweddol y mae angen eu cyfeirio at y Pwyllgor Gwaith ar hyn o bryd.**

**GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.**

## 6 RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini ar Raglen Waith y Pwyllgor hyd at fis Gorffennaf 2019.

**PENDERFYNWYD nodi'r Rhaglen Waith hyd at fis Gorffennaf 2019.**

**GWEITHREDU : Fel yr uchod.**

**Y CYNGHORYDD GWILYM O JONES**
**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mai, 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Gwilym O Jones, Robert Ll Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Margaret Murley Roberts a Nicola Roberts. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Margaret M Roberts – Cadeirydd y Cyngor Sir |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Gwilym O Jones yn Gadeirydd i'r Pwyllgor Partneriaeth ac Adfywio.

**3 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Glyn Haynes yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

**Y CYNGHORYDD MARGARET M ROBERTS**
**FEL CADEIRYDD Y CYNGOR SIR**

This page is intentionally left blank

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# *PUBLIC INTEREST TEST*

**Eitem 14 – Contract Rheoli Gwastraff**
**Item 14 – Waste Management Contract**

Paragraff 14 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972
Paragraph 14 of Schedule 12A Local Government Act 1972

Y PRAWF – *THE TEST*

| Mae yna fudd i'r cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / *There is a public interest in disclosure as*:- | Y budd i'r cyhoedd with beidio datgelu yw / *The public interest in not disclosing is*:- |
|---|---|
| • Mae'r adroddiad Pwyllgor amgaeedig a'r atodiadau yn rhoi manylion mewn perthynas â'r opsiynau ar gyfer casglu gwastraff a glanhau strydoedd i'r dyfodol.<br><br>• *The enclosed Committee Report and accompanying appendices provide details in relation to future waste collection & street cleansing options.* | • Mae'r wybodaeth yn adroddiad Pwyllgor amgaeedig yn cynnwys trafodaeth am yr opsiynau ar gyfer darparu i'r cyhoedd gwasanaeth casglu gwastraff a glanhau strydoedd i'r dyfodol. Gall datgelu'r wybodaeth yn yr adroddiad amharu ar fuddiannau masnachol y Cyngor o ran sicrhau'r telerau ac amodau mwyaf manteisiol mewn unrhyw ymarfer caffael yn y dyfodol. Yn ei dro, gallai hyn gael effaith negyddol ar y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd.<br><br>• *The information contained within the enclosed Committee Report includes discussion about the options for the future delivery of the waste collection & street cleansing a service to the public. Disclosing the information in the report may prejudice the Council's commercial interests in securing the most advantageous terms and conditions in any future procurement exercise. In turn, this may have a negative impact on service delivery to the public.* |

**Argymhelliad:** Mae'r budd i'r cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na'r budd i'r cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth

***Recommendation:*** *The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.*

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Craffu

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Craffu Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 13 Mehefin 2019 |
| **Pwnc:** | Adroddiad ADY a Chynhwysiad - Adroddiad sy'n dangos cynnydd disgyblion drwy'r gwasanaeth sydd wedi dod i rym ers mis Medi 2017. |
| **Diben yr adroddiad:** | Rhoi diweddariad ar:<br>Y cynnydd a wnaed o ran datblygu'r ddarpariaeth a ddarperir gan ysgolion.<br>Y cynnydd a wnaed gan y dysgwyr sy'n derbyn mewnbwn<br>Y cynnydd a wnaed i sicrhau bod Môn yn barod ar gyfer y bil ADY a Chynhwysiad newydd. |
| **Cadeirydd Craffu:** | Y Cynghorydd Gwilym O. Jones |
| **Deilydd/Deiliaid Portffolio:** | Y Cynghorydd R. Meirion Jones |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Arwyn Williams |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Ffion Edwards Ellis<br>01286 679007<br>FfionEdwardsEllis@gwynedd.llyw.cymru |
| **Aelodau lleol:** | Dim ward benodol |

### 1 - Argymhelliad/ion

### 2 - Cysylltiad â Chynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Addysg a sgiliau - parhau i godi safonau addysg a sicrhau bod gan ein pobl ifanc y sgiliau ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant

### 3 - Egwyddorion sy'n Arwain yr Aelodau Craffu

**Cynorthwyo Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith y mater ar unigolion a chymunedau **[canolbwyntio ar y cwsmer/dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig - yn ariannol ac o ran ansawdd **[canolbwyntio ar werth]**

**3.3** Ystyried unrhyw risgiau **[canolbwyntio ar risg]**

**3.4** Craffu yn ymgymryd â swyddogaeth monitro neu sicrhau ansawdd **[canolbwyntio ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Ymglymiad

**[canolbwyntio ar lesiant]**

## 4 - Cwestiynau Craffu Allweddol

1. A yw'r gwasanaeth yn gwella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Ychwanegol a Chynhwysiad mewn Ysgolion?
2. A yw'r gwasanaeth yn darparu yn unol ag anghenion ysgolion, ac yn rhoi dysgwyr yn ganolog i'r broses?
3. A yw'r gwasanaeth yn cyfrannu at ddeilliannau unigolion gydag Anghenion ADY a Chynhwysiad o ran eu sgiliau, eu cyflawniadau a'u llesiant?
4. A fydd y gwasanaeth yn sicrhau bod yr Awdurdod yn medru bodloni gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys (Cymru) (2018) pan ddaw i rym ym mis Medi 2020?

## 5 - Y Cefndir/ Cyd-destun

Mae'r hyn a ganlyn yn mynd ati i geisio crynhoi'r wybodaeth a gyflwynwyd yn yr Atodiadau yn unol a'r cwestiynau allweddol.

1. **A yw'r gwasanaeth yn gwella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Ychwanegol a Chynhwysiad mewn Ysgolion?**

Wrth ailadrodd y broses o werthuso'r ddarpariaeth ADY a Chynhwysiad mewn ysgolion, mae'r Swyddog Ansawdd ac ADY a Chynhwysiad yn defnyddio cyfres o ddangosyddion allweddol. Mae hyn yn darparu cyfoeth o wybodaeth ddefnyddiol mewn perthynas ag adnabod ysgolion sydd angen monitro a chefnogaeth ychwanegol. Wrth gymharu'r broses a ddilynwyd ar ddechrau'r flwyddyn ac ym mis Mai 2019, mae 52% o Ysgolion wedi dangos gwelliant yn eu prosesau a'u darpariaethau ADY. Ym mis Mai 2019, roedd 89% o ysgolion yn medru dangos bod ganddynt brosesau a darpariaethau o ansawdd dda, sy'n welliant ers y broses RAG flaenorol.

Gall yr holl wasanaethau o fewn ADY a Chynhwysiad ddangos eu cyfraniad at ddatblygu ansawdd y ddarpariaeth drwy'r hyfforddiant y maent wedi'i ddarparu a'r sgiliau y maent wedi'u trosglwyddo (gweler Atodiad 3-7) ac mae ganddynt brosesau i sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei gwreiddio yn yr ysgol.

Mae'r Gwasanaeth wedi darparu mewnbwn i ddysgwyr mewn canran uchel o ysgolion ers mis Medi 2018, ac mae hyn yn cael ei ddangos yn y tabl isod. Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys yr hyfforddiant sydd wedi'i ddarparu i'r holl ysgolion ledled yr Awdurdod.

| Tîm | | Canran Ysgolion Môn sydd â dysgwr/dysgwyr ar agor i'r Fforwm ers mis Medi 2018 |
|---|---|---|
| Anghenion Dysgu Penodol | | 36.2% |
| Meddygol/Corfforol | | 63.8% |
| Cyfathrebu a Rhyngweithio | | 83.0% |
| Synhwyraidd | | 53.2% |
| Ymddygiad | | 51.1% |

**2. A yw'r gwasanaeth yn darparu yn unol ag anghenion ysgolion, ac yn rhoi dysgwyr yn ganolog i'r broses?**

Wrth baratoi ar gyfer y Ddeddf ADY a Thribiwnlys newydd, mae'r gwasanaeth yn defnyddio'r prosesau Cynllunio Person Canolog sy'n rhoi'r dysgwr a'i deulu yn greiddiol i'r broses.

Ym Mis Mai 2019, gyrrwyd Holiadur Bodlonrwydd y Gwasanaeth i Ysgolion Mon a Gwynedd. Yn anffodus ni gafwyd nifer uchel o ymatebion y tro hwn (7 ymateb gan Ysgolion Mon, a 18 gan Ysgolion Gwynedd). Mae hyn yn gwneud hi'n annodd gwneud casgliadau. Fodd, bynnag gellir ystyried themau o'r ymatebion, ar gyfer eu targedu. Y themau hyn yn deillio o brosesau Fforwm mynediad gwasanaeth a Panel Cymerdoli.

- Gwella systemau cyfathrebu ogwmpas achosion, meini prawf mynediad a gadael, a phenderfyniadau. Mae rhain yn flaenoriaeth gwasanaeth Ansawdd (Atodiad 1) a Gwedd 2 o'r Adolygiad Strategol (Atodiad 2).
- Gwybodaeth ynglyn a dyddiadau Fforymau a Phaneli, sydd ar wefan y gwasanaeth, yn adnabod yr angen i hysbysebu'r wefan yn fwy effeithiol. Mae rhain angen cysylltu gyda blaenoraethau yn Atodiad 1.

Er mwyn gwella ymateb i'r holiadur pan fyddwn yn ei yrru allan eto, byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- Mae swyddogaeth Rheolwr Busnes yn rhan o'r tîm gweinyddol ers 1 Mehefin, a bydd hyn yn cynnwys edrych ar systemau a gwella'r agwedd hon, a materion gofal cwsmer eraill.
- Bydd y Tim Rheoli yn addasu cynnwys yr holiadur, er mwyn lleihau'r amser cwblhau, yn ogystal ag ystyried ffyrdd eraill o gasglu'r wybodaeth, yn ystod Mehefin. Gobeithir ail-gyflwyno ym Mis Gorffennaf/Medi. Er enghraifft casglu'r wybodaeth mewn cyfarfodydd dalgylch.
- Bydd yr Uwch Reolwr yn mynychu cyfarfodydd Pennaethiaid Cynradd ac Uwchradd yn rheolaidd i drafod, a creu linc strategol.

- Bydd datblygu Cynllun Datblygu Unigol Electronig, sy'n system rhyngrwyd sy'n caniatáu i ysgolion, rhieni ac asiantaethau eraill gydweithio i ddatblygu cynllun ar gyfer dysgwr, yn gwella'r llwybrau cyfathrebu'n sylweddol.

Mae'r ysgolion yn adrodd barn gyffredinol bositif ynghylch mewnbwn y gwasanaethau, sy'n cael eu cyflwyno iddynt drwy gyfathrebu mewn Cyfarfodydd Dalgylch. Mae hefyd yn fwriad trefnu cyfarfodydd tymhorol torfol gyda Cydlynwyr ADY a CH fel sesiynau Awdurdod cyfan.

Mae lefel Tribiwnlys yn isel, gyda Arolwg SNAP Cymru yn bositif o ran gallu’r Awdurdod i ddatrys anghydfod gyda rhieni.

**3. A yw'r gwasanaeth yn cyfrannu at ddeilliannau unigolion gydag Anghenion ADY a Chynhwysiad o ran eu sgiliau, eu cyflawniadau a'u llesiant?**

Mae gan y Timau yn y gwasanaeth asesiadau yn eu lle er mwyn adrodd ar gynnydd y dysgwyr sy'n derbyn mewnbwn. Mae mwyafrif y gwasanaethau ADY naill ai'n defnyddio'r Mesurau Deilliannau Therapi (TOMs) i werthuso'r deilliannau, neu maent yn y broses o'u gweithredu. Mae TOMs yn asesiad graddedig, sy'n mesur cynnydd yn erbyn meysydd i'w datblygu. Mae’n bosib llunio barn ynghylch y lefel TOMs drwy gyfuno'r wybodaeth a geir o ffynonellau ac asesiadau eraill. Nid yw'r Tîm Anawsterau Llythrennedd Penodol yn defnyddio TOMs yn llawn eto, fodd bynnag, maent yn medru mesur cynnydd drwy asesiadau llythrennedd a rhifedd safonedig.

Pedwar maes yr asesiad TOMs yw:

*Angen/Amhariad - Lefel yr anhawster mae'r person ifanc yn ei brofi*
*Gweithgaredd - Y lefel y mae'r person ifanc yn medru cael mynediad i weithgareddau a chael annibyniaeth ynddynt*
*Cyfranogiad - y ffordd y mae'r person ifanc yn cymryd rhan yng nghymuned yr ysgol yn gymdeithasol, yn annibynnol a'u gallu i ryngweithio ag eraill*
*Llesiant - Sut mae'r person ifanc yn ymdopi yn emosiynol ar lefel unigol*

Mae'r Gwasanaethau Cynhwysiad yn defnyddio dulliau asesu eraill, sy'n fwy addas i gynllunio ymyraethau ar gyfer targedu anawsterau emosiynol, ymddygiadol a chymdeithasol, er enghraifft y Proffil Boxall (gweler Atodiad 7)

Fel y gellir gweld yn yr Atodiadau (Atodiad 3-8), gall ein gwasanaethau ddangos amrediad o gynnydd boddhaol i dda. Mae nifer y plant sy'n derbyn mewnbwn yn yr Awdurdod yn uchel ar hyn o bryd, sy'n ddisgwyliedig wrth i'r hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu wreiddio yn nulliau'r ysgol gyfan.

Mae craffu'r cynnydd a wneir bellach yn bwnc trafodaeth allweddol yn nhrafodaethau'r tîm, ynghyd â chymedroli'r defnydd a wneir i sicrhau cysondeb. Mae'r meini prawf mynediad wedi'u hadolygu i adlewyrchu'r prosesau asesu sydd wedi'u datblygu, ac wedi'u plethu’n rhan o'r

disgwyliadau ar gyfer cyfrifoldeb yr ysgol i fodloni anghenion dysgwyr gydag ADY yn gychwynnol, ac i gael darpariaethau priodol a dulliau cyson.

4. **A fydd y gwasanaeth yn sicrhau bod yr Awdurdod yn medru bodloni gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys (Cymru) (2018) pan ddaw i rym ym mis Medi 2020?**

Ym mis Ebrill 2018, cwblhawyd Arolwg Parodrwydd Cychwynnol gyda'r Awdurdod a'r Arweinydd Trawsffurfio ADY Rhanbarthol (Llywodraeth Cymru).
Dangosodd yr Arolwg bod yr Awdurdod yn cyflawni'r cyfraddau a ganlyn ar y 40 deilliant yn yr arolwg:

| | |
|---|---|
| Saff | 70% |
| Datblygu | 30% |
| Angen datblygu | 0 |

Pan fo'r arolwg yn cael ei ailadrodd ym mis Gorffennaf 2019, disgwylir i'r ardaloedd sy'n cael eu datblygu ddangos digon o gynnydd fel y gellir ystyried eu bod yn y categori 'saff'. Dengys hyn bod yr Awdurdod yn flaengar o ran ei baratoadau ar gyfer y newidiadau deddfwriaethol. Mae Atodiad 2 yn crynhoi'r gwaith sydd wedi cael ei wneud.

O ran tynnu sylw at wybodaeth allweddol, mae datblygu Cynllun Datblygu Unigol electronig yn brosiect allweddol yn y gwaith hwn. Mae'r deilliant mewn perthynas â systemau, cyfathrebu a darparu cynlluniau i blant a phobl ifanc lle mae eu hansawdd wedi'u sicrhau, yn ddatblygiad allweddol.

Bydd cynnydd sylweddol mewn pwysau cyfeithiol ar yr Awdurdod pan fo’r Deddfwriaeth newydd yn dod yn fyw. Fodd bynnag mae’r bodolaeth o wasanaeth canolog yn gwarchod a cryfhau’r awdurdod wrth symud ymlaen, gyda awdurdodau sydd heb yn edrych i ail-sefydlu. Mae’n rhoi arf bwysig o ran ymateb i sialens a gofynion Tribiwnlysoedd.

## 6 - Asesiad Effaith Cydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr iaith Gymraeg]

Mae'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn cydymffurfio â Deddf AAA a'r Cod Ymarfer AAA cyfredol.

Mae'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn cynnig gwasanaeth cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r paratoadau ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd (Deddf ADY a Thribiwnlys (Cymru) 2018), yn mynd yn dda a bydd hyn yn cynorthwyo â'r trosglwyddiad rhwng y ddeddfwriaeth gyfredol a'r ddeddfwriaeth ddiwygiedig.

## 7 - Goblygiadau Ariannol

Bydd y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn cynnig gwasanaeth o fewn y gyllideb a gytunwyd, ac nid oes arwyddion y bydd gorwariant.

## 8 - Atodiadau:

Atodiad 1: Gwasanaeth Ansawdd Anghenion Dysgu Ychwanegol
Atodiad 2: Adolygiad Strategol Cam 2
Atodiad 3: Gwasanaeth Seicoleg Addysgol
Atodiad 4: Gwasanaeth Anawsterau Dysgu Penodol
Atodiad 5: Gwasanaeth Anghenion Synhwyraidd, Meddygol a Chorfforol
Atodiad 6: Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio
Atodiad 7: Gwasanaethau Cynhwysiad
Atodiad 8: Gwasanaeth Cwnsela Ysgolion
Atodiad 9: Gwasanaeth Lles Addysg

## 9 - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am wybodaeth bellach):

## Atodiad 1

## ADRODDIAD GWASANAETH ANSAWDD

Mae'r Gwasanaeth Ansawdd yn cynnig cefnogaeth a chyngor a hefyd yn sicrhau ansawdd ADY a Chynhwysiad ar draws ysgolion Ynys Môn; ynghyd â hyn mae rol y Swyddog Ansawdd i gadw llygaid ar achosion disgyblion unigol sy'n peri pryder.

Mae hyn yn digwydd trwy arlwy cefnogaeth a ragio cytunedig, a bydd unrhyw bryderon sylweddol yn cael eu uwchraddio yn y Cyfarfod Ansawdd ac yna yn y Bwrdd Ansawdd Siriol.

**I ba raddau mae'r Gwasanaeth yn cael effaith ar ansawdd y ddarpariaeth ADY o fewn Ysgolion Mon?**

Mae rol y Swyddog Ansawdd yn allweddol yn sicrhau cysondeb mewn ceisiadau i'r Fforymau er mwyn cael mynediad at y Timoedd Integredig a cheisadau i'r Paneli Cymedroli.

O fis Medi 2018 hyd Mai 2019 dyma drosolwg o waith y Swyddog Ansawdd.

| | |
|---|---|
| Ymweliadau Cynnal – yn dilyn Ragio neu o'r BAS | 12 |
| Ymweliadau cyn Arolwg fesul ysgol | 3 |
| Cyfarfod yn dilyn pryder rhiant | 20 |
| Adolygiadau Blynyddol/Trosglwyddo | 20 |
| Disgyblion – ymgynhoriadau CDU | 10 |
| Cyfarfodydd proffesiynol | 24 |
| Hyfforddiant | 17 |
| Cefnogaeth Cydlynwyr newydd | 15 |
| Monitro Adolygiadau Blynyddol | 23 |

**Hyfforddiant**
Mae'r Swyddogion Ansawdd wedi parhau i hyfforddi o ran mapio darpariaeth, defnyddio cyllid ADY mewn ffordd synhwyrol.

Hefyd yn cynnal trafodaethau gyda rhieni ag ysgolion yn dilyn paneli os oes pryder neu ymholiad ynglyn a penderfyniad.

Yn Ystod Mai 2019 bu i'r Swyddogion Ansawdd gynnal dau weithdy mewn cydweithrediad a'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol, Gwasanaeth Angehnion Dysgu Penodol, a'r Ysgolion Arbennig. Roedd un gweithdy ar gyfer edrych ar ddarpariaeth Anghenion Dysgu Penodol yn yr uwchradd, a'r llall ar gyfer rhannu arfer dda rhwng yr Ysgolion prif lif sydd a disgyblion ag anghenion dysgu sylweddol, a'r Ysgolion arbennig.

**I ba raddau mae'r Gwasanaeth yn darparu yn ôl y gofyn i Ysgolion, ac yn gweithredu drwy roi'r dysgwyr yn y canol?**

Gan fod y Swyddogion Ansawdd yng nghlwm a'r broses Fforwm a Phanel, a monitro defnydd cyllideb ADY Ysgolion, bydd angen ymateb i'r sylw sydd angen ei roi i'r cyfathrebu, ac i ddealltwriaeth ynglŷn â'r rôl. Gweler Atodiad 10 am ganlyniadau Holiadur Gwasanaeth.

Mae'r Swyddogion Ansawdd yn gwneud defnydd o ddulliau Cynllunio sydd yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn. Maent mewn cyswllt a rhieni yn aml, ac yn rhan annatod o gychwyn y broses o ddatrys anghydfod rhwng ysgol, Awdurdod a rhieni.

**I ba raddau mae'r Gwasanaeth yn cynorthwyo'r ALl i ymbaratoi at y Ddeddfwriaeth newydd?**

Mae'r Swyddogion Ansawdd wedi bod yn gweithio yn agos gyda'r Eiriolwyr ADY (Prosiect Trawsnewid ADY Llywodraeth Cymru, Gweler Atodiad 2) ar gyfer cynllunio eu cynlluniau trawsnewid ar lefel dalgylch.. Hefyd wedi bod yn rhan o waith Gwedd 2 yr Adolygiad Strategol.

| Crynhodeb o Flaenoriaethau Datblygu | Actions |
|---|---|
| - I ddatblygu ar systemau cyfathrebu gyda Ysgolion a Rhieni | - System Cynllun Datblygu Unigol cenedlaethol yn cael ei rowlio allan I pob ysgol. Bydd hyn yn gwella cyfathrebu yn sylweddol.<br>- Cnal sesiynau wybodaeth a thrafodaeth gyda Cydlynwyr ADY a Ch. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant meini prawf, atgoffa o fynhonellau Gwybodaeth a pharatoi at y Cod newydd. |
| - Lliniary rol monitro darpariaeth, a mewnbwn ysgolion i'r Paneli Cymedroli | - Cysylltu'r prosesau i'r gofynion deddfwriaethol, ac agenda ansawdd ehangach<br>- Disgrifio ffwythiant ymweliadau, ac hefyd gyfynion ar ysgolion i ddarparu |

# Atodiad 2

# Adolygiad Strategol Gwedd 2

## <u>I ba raddau mae'r Gwasanaeth yn cynorthwyo'r ALl i ymbaratoi at y Ddeddfwriaeth newydd?</u>

**Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad – Gwedd 2**
Pwrpas yr Adolygiad o'r Gwasanaeth ADYaCh yw trawsnewid y gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

Nod y Strategaeth yw:

**'Sicrhau bod plant a phobol ifanc (rhwng 0 a 25 oed) sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn manteisio ar gyfleoedd ac yn ennill profiadau sydd wedi eu cynllunio'n effeithiol ar eu cyfer, er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd yn unol â'u gallu.'**

Yng Ngwedd 2 mae cyfres o brosiectau penodol, ond sydd yn gysylltiedig - er mwyn gweithredu'r Strategaeth yn llawn, a pharatoi ar gyfer y Ddeddf Anghenion Dysgu a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 drwy sicrhau bod yr holl agweddau yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Mae Gwedd 2 yn rhoi sylw i'r meysydd canlynol:

- Deddfwriaeth ADY
- Datrys Anghydfod
- Blynyddoedd Cynnar ADYaCh
- Darpariaeth 16-25 oed
- Cludiant ADY
- Cyllid Integreiddio ADY
- Rhaglen Hyfforddiant
- Ymgysylltu
- Ysgolion Arbennig

Mae'r Gwasanaeth ADYaCh o fewn yr Adran Addysg yn cydweithio'n drawsadrannol (Plant a Theuluoedd, Oedolion, Cyfreithiol) i sicrhau bod pob adran o fewn yr awdurdod yn ymwybodol o'u dyletswyddau cyfreithiol o dan y Ddeddfwriaeth newydd.

Pasiwyd Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Rhagfyr 2017 a dderbyniwyd Cydsyniad Brenhinol ar 24 Ionawr 2018. Mae Adran 4 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i restr o "bersonau perthnasol" roi sylw i'r canllawiau perthnasol yn y Cod.

Yn bennaf, cyrff cyhoeddus yng Nghymru sydd â'r prif gyfrifoldebau a dyletswyddau o dan y Ddeddf:


- awdurdodau lleol,
- ysgolion a gynhelir,
- Sefydliadau Addysg Bellach (SAB)
- cyrff GIG.

Yn ogystal, mae'n ofynnol i ddarparwyr addysg feithrin nas cynhelir, a gyllidir gan awdurdod lleol, yn unol â threfniadau cyllido'r awdurdod lleol, roi sylw i'r canllawiau perthnasol yn y Cod.

Bydd rheoliadau a Chod ADY yn ategu'r Ddeddf. Mae'n bwysig nodi mai Cod ADY, nid Cod Ymarfer, ydyw oherwydd ei fod yn ganllawiau statudol a gofynion gorfodol - dyletswyddau cyfreithiol yn hytrach nag arferion da.

- Bu Ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cod ADY drafft a'r rheoliadau arfaethedig rhwng 10 Rhagfyr 2018 a 22 Mawrth 2019
- Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar ofynion y Cod ADY, y bwriad polisi ar gyfer rheoliadau, ac ydy'r eglurhad yn nyletswyddau'r Cod y Ddeddf yn glir.
- Bu i gynrychiolwyr o'r Gwasanaeth ADYaCh fynychu digwyddiad ymgynghori Llywodraeth Cymru ar 21 Chwefror 2019.
- Cynhaliwyd Gweithdy ymateb i'r ymgynghoriad gyda rheolwyr o fewn y Gwasanaeth ADYaCh.
- Wedi cydweithio gyda Adrannau Cyfreithiol a Gwasanaethau Cymdeithasol y ddau awdurdod wrth lunio'r ymateb

**Amserlen Gweithredu**




**Trawsnewid ADY**
Mae'r Trawsnewid ADY Rhanbarthol yn gosod cyfeiriad i weithredu'r ddeddfwriaeth newydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu'r model clwstwr er mwyn cyflawni'r gwaith o drawsnewid ADY ar lefel lleol ac fel ffordd o symud yr agenda drawsnewid ymlaen ar draws y Gogledd. Bydd yr **Eiriolwyr Clwstwr Trawsnewid ADY** yn cydweithio'n agos â'r awdurdod lleol a'r arweinydd trawsnewid rhanbarthol er mwyn lledaenu gwybodaeth a datblygu gweithdrefnau ADY lleol a ffyrdd newydd o weithio wrth i ni symud tuag at ddyddiad gweithredu Medi 2020. Mae cyfarfodydd ardal rheolaidd yn cael ei gynnal gyda'r Eiriolwyr ADY i sicrhau rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf ar drawsnewid ADY gyda'r arweinwyr/ cydlynwyr ADY o fewn eu clwstwr ysgolion.

Mae Eiriolwyr Trawsnewid ADY wedi llunio Cynlluniau Gweithredu i'w clwstwr o ysgolion a'r cynlluniau hynny bellach wedi'u cwblhau a chyllid wedi'i ddosrannu i'r ysgolion ar gyfer 2018-2019. Mae Cynlluniau 2019-2020 yn cael eu paratoi ar hyn o bryd. Bwriad y cynlluniau hyn yw cynorthwyo'r ysgolion wrth iddynt baratoi ar gyfer y Ddeddfwriaeth newydd.

Derbyniodd awdurdodau Gwynedd a Môn (ar y cyd) gyllid o £46,038.78 trwy'r Grant Trawsnewid ADY ar gyfer cyflawni Prosiectau awdurdod Cronfa Trawsnewid ADY yn ystod 2018-2019:

1. Sgopio rôl Cydlynydd ADYaCh Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Swyddog wedi cychwyn yn y rôl ers Ionawr 2019. Awdit Blynyddoedd Cynnar lleoliadau a'r rhanddeiliaid wedi'u cynnal i gasglu gwybodaeth am weithdrefnau / darpariaeth ADYaCh, a chyflwyno'r Cod ADY Drafft.

2. Peilota adnoddau a gweithdrefnau monitro a hybu llais y plentyn – bu 8 ysgol yn rhan o beilot rhwng Ionawr – Mawrth 2019.

3. Monitro yn ganolog drwy Fesurau Deilliannau Therapi (TOMs) – gwaith i greu codau eu dilysu ac adnabod pa dystiolaeth i gasglu i benderfynu pa lefel TOMs (gweler Atodiad 3 am ddisgrifiad o TOMs)

Mae cais wedi'i gyflwyno ar gyfer Grant Trawsnewid ADY 2019-2020 i barhau'r Prosiect Sgopio rôl Cydlynydd ADYaCh Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant - gan gynnwys

- Datblygu adnabyddiaeth o'r rôl Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar - rôl newydd statudol o dan y Ddeddfwriaeth newydd

- Codi ymwybyddiaeth lleoliadau blynyddoedd cynnar o'r Ddeddfwriaeth a'r Cod ADY a'i effaith arnynt hwy

- Hyfforddi a chefnogi lleoliadau i gynllunio cefnogaeth effeithiol ar gyfer plant gydag unrhyw lefel o ADY, gan sicrhau ymyrraeth gynnar.

**Mae Canlyniad Asesiad Parodrwydd Awdurdod Môn yn dangos for yr Awdurdod yn gallu dangos parodrwydd da iawn ar gyfer newid deddfwriaethol, yn dilyn asesiad gan Swyddog Trawsnewid Rhanbarthol Llywodraeth Cymru.**

**Uned Ddata Addysg Gwynedd a Môn:**

Mae'r Uned Ddata Addysg Gwynedd a Môn ar ran y Gwasanaeth ADY & CH wedi rheoli prosiect mewn partneriaeth gyda datblygwyr Cynnal i greu system sydd yn rheoli'r broses CDU yn ei gyfanrwydd, h.y. yr elfennau gweinyddol o ran derbyn y ceisiadau. Hefyd creu a rheoli'r CDU o fewn Ysgolion a'r Awdurdod.

Mae gwaith sylweddol wedi ei wneud i ddadansoddi beth yw anghenion y Ddeddfwriaeth newydd. Felly, gyda hyn mewn golwg mae'r system CDU electroneg wedi cael ei ddatblygu i adlewyrchu anghenion y Ddeddfwriaeth - cafodd hyn ei wneud fel rhan o 'Cam 2' datblygiad y system.

Ar hyn o bryd mae'r datblygiadau newydd yn cael ei phrofi sicrhau fod y system yn gweithio, a gobeithir fod y system yn weithredol cyn diwedd y tymor ysgol.

Mae nifer o ysgolion Cynradd ac Uwchradd Gwynedd a Môn yn rhan o beilot - mae angen nodi fod adborth o'r system gan yr Ysgolion, yn ogystal ar Wasanaeth yn bositif.

Hefyd, mae'r system wedi derbyn clod yn y Grŵp Polisi Cenedlaethol gan Swyddog sydd â diddordeb mawr yn ddatblygiad a dyfodol y system.

Yn dilyn cyhoeddi'r Cod ADY terfynol (o bosib yn Rhagfyr 2019) bydd gwaith pellach i'w gyflawni i sicrhau bod yr holl agweddau yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd.

| **Crynhodeb Blaenoriaethau Datblygu** | |
|---|---|
| - Rowlio'r Cynllun Datblygu Unigol allan i pob Ysgol<br>- Cwblhau'r llif gwaith sydd yn edrych ar y dull datganoli cyllid ADY mewn paratoad at Medi 2020.<br>- Parhau i fapio gwaith yn ol meysydd newid allweddol y Deddf ADY – Blynyddoedd Cynnar a'r ystod oedran 16-25, disgyblion sydd ddim yn mynychu lleoliad a'i gynhelir gan yr awdurdod | |

## Atodiad 3

## Gwasanaeth Seicoleg Addysgol

**Pwrpas y Gwasanaeth**
Sicrhau bod yr ysgolion a'r ddarpariaeth yn arfogi'r plant a'r pobl ifanc i gyflawni'r safonau uchaf ac i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau sy'n eu galluogi i fyw a ffynnu'n lleol.
Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol yn cyd-weithio ag ysgolion Gwynedd ag Ynys Môn i hwyluso ymateb addas a rhesymol pobl ifanc sydd yn profi anawsterau dysgu ychwanegol, yn rhan o Dîm ADY, Lles a Chynhwysiad, lle bo'r anghenion yma yn effeithio ar fynediad yr unigolion i'r cwricwlwm a/neu les.

Mae mynediad at y Gwasanaeth trwy gyfarfod cynllunio gyda'r ysgol a'r dalgylch, yn hytrach na trwy Fforwm neu banel, oherwydd natur amrywiol lefel yr ymyrraeth.

Mae'r Gwasanaeth yn cynnig:

- Hyfforddiant mewn swydd ar ystod o bynciau:
- Ymyraethau Grŵp/Unigol Therapiwtig
- Cynnal prosiectau ymchwil
- Ymgynghori ar lefel disgybl unigol (gan gynnwys asesiadau pellach o anghenion ble yn briodol)
- Defnydd o ddulliau Cynllunio sydd yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn
- Goruchwyliaeth/sesiynau trafod ar gyfer staff

- **Niferoedd staff (Gwynedd a Môn)**
- Prif Seicolegydd/Uwch Reolwr 1.0
- Dirprwy Brif Seicolegydd 0.8
- Uwch Seicolegwyr 1.2
- Seicolegwyr Addysgol 5.2 (1.0 gwag)

**<u>I ba raddau mae'r Gwasanaeth yn cael effaith ar ansawdd y ddarpariaeth ADY o fewn Ysgolion Môn?</u>**

**Cyfarfodydd Dalgylch**
Yn Ystod y flwyddyn Academaidd bu i'r Gwasanaeth ddarparu Cyfarfodydd Dalgylch ymhob dalgylch, o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i Gydlynwyr ddod at eu gilydd i dderbyn hyfforddiant, ymgynghori grŵp (trafodaeth achos), a rhannu arfer dda. Mae presenoldeb o fewn y cyfarfodydd wedi parhau i wella, a chyd fynd gyda'r agenda o ran Trawsnewid ADY.

Pynciau hyfforddi yn ystod 2018/2018:

- Hyfforddiant Proffil Boxall - Proffil sydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynllunio ymyrraeth Annog ar gyfer anghenion emosiynol, ymddygiadol, cymdeithasol ac ymlyniad.
- Hunan Asesu ADP Gyfeillgar – Ar gyfer sicrhau fod darpariaeth ADY Llythrennedd a Rhifedd traws ysgol yn addas.
- Rhaglen ACE – Hybu defnydd o hyfforddiant Hwb Cymru ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc sydd yn cael profiad o brofiadau niweidiol.

**Hyfforddiant Cyfathrebu Gyfeillgar**

Cyd-greu a chyflwyno hyfforddiant Cyfathrebu Gyfeillgar (gweler Adroddiad 6, Cyfathrebu a Rhyngweithio)

**Hyfforddiant ELSA (Emotional Literacy Support Assistant)**
Mae'r Gwasanaeth wedi cofrestru gyda Rhwydwaith ELSA, a chyflwyno hyfforddiant ELSA dros y flwyddyn addysgol hon am y tro cyntaf. Mae'n hyfforddiant o 6 diwrnod, gyda thasgau ymarferol rhwng pob sesiwn. Mae yn uwch sgilio cymorthyddion i gryfhau map darpariaeth ysgolion yn eu gallu i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc gydag anawsterau emosiynol a lles.

Mae 17 Cymhorthydd yn cymhwyso fel Cymhorthydd ELSA ym Mis Gorffennaf 2019. Mae hyn yn golygu fod darpariaeth ELSA am fod ar gael mewn 17 ysgol wahanol.

Bu sesiwn codi ymwybyddiaeth Penaethiaid y cymorthyddion hyn yn ystod Mis Mai er mwyn sicrhau fod sgiliau'r cymorthyddion hyn yn cael eu defnyddio fel rhan o ddarpariaeth Ysgolion ym Môn.

**Rhaglen Ysgolion sy'n Annog (National Nurturing Schools Programme, NNSP)**

Mae pob Ysgol Uwchradd yn cymryd rhan mewn rhaglen achredu. Mae'r rhaglen yn cynnwys hyfforddiant a rhaglen o hunan arfarnu'r ysgol fel sefydliad sydd yn annog. Mae hyn yn cael ei arwain gan y Dirprwy Brif Seicolegydd mewn cydweithrediad a Nurture UK. Mae'r cynnydd yn erbyn y rhaglen o fewn Ysgolion Uwchradd Môn yn addawol iawn.

**Meddwlgarwch (Mindfulness)**
Mae tair aelod o'r tîm wedi eu hyfforddi i gynnal sesiynau meddwlgarwch (Paws b) gyda grwpiau o blant a phobl ifanc. Mae'r gwaith yma yn debygol o gael ei ymestyn, ac wedi ei gynnal gyda 5 ysgol o fewn Môn eisoes.

**<u>I ba raddau mae'r Gwasanaeth yn darparu yn ôl y gofyn i Ysgolion, ac yn gweithredu drwy roi'r dysgwyr yn ganolog?</u>**

Rhan greiddiol o waith y Tim yw cynnwys dysgwyr a'u teuluoedd ymhob agwedd o waith ymgynghori dydd i ddydd, er mwyn sicrhau golwg ar y plentyn cyfan.

Yn ystod Tymor y gwanwyn, mae aelod o'r tim wedi cynnal prosiect ymchwil sydd yn edrych ar les disgyblion sydd ag ADY. Mae'r ymchwil wedi cynnwys gwaith gyda grwp ffocws o ddisgyblion. Bydd y gwaith yma yn parhau, gyda'r gobaith o gael ei gyhoeddi. Mae'r gwaith wedi ei gyflwyno i Grwp Strategol Cynhwysiad Gwynedd a Môn.

**<u>I ba raddau mae'r Gwasanaeth yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau, cyrhaeddiad a lles disgyblion sydd yn derbyn Gwasanaeth?</u>**

Mae'r Gwasanaeth yn defnyddio model o gyd-weithio gyda dysgwyr, eu rhieni, a staff allweddol o fewn yr Ysgol neu leoliad addysgol er mwyn hybu effaith gadarnhaol ar yr uchod.


Er mwyn dadansoddi effaith hyn, mae'r gwasanaeth yn awr yn defnyddio teclyn o'r enw TOMs (Therapy Outcome Measures). Mae hyn yn cyd-fynd gyda'r Gwasanaethau eraill o fewn ADY erbyn hyn. Nid yw'r Gwasanaeth yn gwneud y TOMs yn unigol os ydy'r dysgwr ar agor i wasanaeth ADY fel nad oes dyblygu data. Mae dadansoddiad o sampl o waith ymgynghori ac ymyrraeth Gweithredu

Ysgol a Mwy i'w weld isod.  Byddwn yn parhau i ddatblygu'r dull ymhellach gydag ystod ehangach o achosion.

Mae'r TOMS yn cael ei sgorio fel rhif o  0 i 5 fel arfer, gyda 0 yn cyfeirio at y lefel uchaf o angen mewn datblygu, a 5 ydy'r gwrthwyneb.

Wrth edrych ar ddata TOMs Tymor yr Hydref a'r Gwanwyn mae'r canlyniadau fel a ganlyn:

| | Angen | Gweithgaredd | Cyfranogiad | Llesiant |
|---|---|---|---|---|
| Canran achosion yn dangos cynnydd ymhob pennawd | 61% | 50% | 61% | 79% |
| Newid cyfartalog mewn graddfa | +0.4 | +0.3 | +0.3 | +0.7 |




Mae'r canlyniadau yma dros gyfnod eithaf byr o amser, ac felly yn dangos effaith dda.  Bydd y disgyblion sydd heb eto ddangos cynnydd, yn debygol o fod angen ymyrraeth lefel uwch, neu gyfeirio ymlaen am wasanaeth trwy Fforwm neu banel.

Mae gwaith yn tim yn cael ei fonitro trwy gyfarfodydd misol goruchwyliaeth, cyfarfodydd unigol monitro perfformiad, a chyfarfod tim ar gyfer safoni'r defnydd o TOMs.

Bydd y Ddeddfwriaeth ADY newydd yn cael ardrawaid ar y Tim Seicoleg Addysgol yn fwy na'r un tim arall o bosib.  Rhoi'r pwyslais glir iawn ar fewnbwn Seicolegydd Addysgol i bob Cynllun Datblygu Unigol o fewn yr ystod oedran o 0-25.  Bydd hyn yn sialens o ran recriwtio.

| Crynhodeb o Flaenoriaethau Datblygu | Actions |
|---|---|
| - Gwerthuso effaith ELSA er mwyn cynllunio ar gyfer y cohort nesaf | Monitro a goruchwylio ymarfer, cyfweld ELSA's a'u pennaethiaid, trafodaeth tim o gwmpas cynnwys y cwrs. |
| - Ehangu'r ymchwil sydd wedi cymryd lle yn barod i les ar lefel ysgol gyfan er mwyn mewnbynnu i ymarfer ysgol gyfan. | Ymestyn yr ymchwil i fwy o ysgolion gyda mewnbwn gan eraill yn y tim. |
| - Parhau i ddatblygu defnydd addas o amser y gwasanaeth drwy edrych ar yr ymarfer gorau. | Trafodaeth yn y cyfarfodydd dalgylch, hyfforddi ar ddulliau blaenoriaethu i barhau |
| - I ystyried recriwtio tymor hir er mwyn sicrhau'r gallu i benodi seicolegwyr sydd yn gallu gwasanaethu yn ddwy-ieithog yn lleol. Bydd hyn yn galluogi'r awdrudod I gyflawni dyletswyddau statudol y ddeddf newydd. | Trafodaeth rhanbarthol a chenedlaethol Datblygu cyswllt gyda prifysgolion lleol, a parhau i dderbyn lleoliadau profiad gwaith. |

# Atodiad 4

# Gwasanaeth Anghenion Dysgu Penodol

Pwrpas y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Penodol yw hyfforddi, rhoi arweiniad a chefnogaeth i staff mewn ysgolion sydd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc gydag anghenion penodol gyda sgiliau llythrennedd a rhifedd.

O ran Meini Prawf y Gwasanaeth, mae'r dysgwyr sydd yn cael mewnbwn uniongyrchol yn dangos anawsterau sydd yn sylweddol is na'i chyfoedion. Mae mewnbwn hyfforddi'r gwasanaeth ar gael yn ehangach er mwyn galluogi gwaith ataliol i gymryd lle.

O ran staffio'r Gwasanaeth ym Môn, cyfwerth ac un Athrawes Arbenigol sydd yn gwasanaethu Ysgolion Môn, ac yn gweithio llawn amser yn y rôl.

O ran Meini Prawf y gwasanaeth, mae'r Fforwm yn edrych ar sgorau llythrennedd a rhifedd, yn ogystal â sgiliau ymdopi gyda'r cwricwlwm. Mae'r gwasanaeth yn treialu defnydd TOMs ar hyn o bryd. Mae hyn wedi golygu creu cod TOMs o'r newydd ar y cyd gyda'r awduron a fydd yn cael ei rannu yn genedlaethol.

**<u>I ba raddau mae'r Gwasanaeth yn cael effaith ar ansawdd darpariaeth ADY o fewn Ysgolion Môn?</u>**

Mae'r Gwasanaeth yn cynnig yr Hyfforddiant canlynol:

- Modelu gwersi i rieni/cymhorthyddion – 12 o Ysgolion
- Sesiynau rhannu ymarfer da/adnoddau gyda cymhorthyddion/athrawon – 13 o Ysgolion
- Hyfforddiant Cynradd/Uwchradd – 1 Dalgylch cyfan
- Nosweithiau syrjeri

Prosiect newydd ar y gweill

- Gweithio tuag at sefydlu llyfrgell o adnoddau'r Tîm y gellir eu benthyg i Ysgolion.
- Treialu profion safonedig er mwyn dethol profion addas i ddatblygu amrediad o asesiadau y gall y Tîm eu cynnig. Bydd hyn yn cynorthwyo ysgolion i asesu angen.
- Cydweithio gyda'r Swyddogion Ansawdd a'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol i gynnal sesiwn arfer dda yn y maes ar y 13.05.19.
- Hybu'r defnydd o'r offeryn Hunan Asesu ADP er mwyn adnabod meysydd angen mewn ysgolion, a chryfhau'r ddarpariaeth o fewn yr ysgolion.

**<u>I ba raddau mae'r Gwasanaeth yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau, cyrhaeddiad a lles disgyblion sydd yn derbyn Gwasanaeth?</u>**

Yn ystod y flwyddyn mae'r gwasanaeth wedi rhoi mewnbwn i 50 o ddisgyblion mewn 19 o Ysgolion ym Mon. **Mae 14 o'r disgyblion hyn wedi cyrraedd Meini Prawf gadael y Gwasanaeth erbyn Mis Mai 2019. Mae hyn yn golygu fod 28% o ddysgwyr sydd ar agor i'r tim wedi llwyddo i ddatblygu sgiliau, ac ddim o fewn y disgrifiad o fod yn dangos anhawsterau sylweddol.**

Mae'r Gwasanaeth yn cynnig Ystod o becynnau ymyrraeth yn ddibynnol ar lefel angen a sefyllfa'r dysgwyr.

- Pecyn A+: Athrawes Arbenigol yn ymweld ar ysgol yn wythnosol/ bob yn ail wythnos i addysgu disgybl/grŵp.
- Pecyn A: Ymweliad ymgynghorol gan yr Athrawes Arbenigol i rannu adnoddau, cynnig strategaethau a modelu gwersi. Ymweld bob 6 wythnos i fonitro.
- Pecyn B: Ymweliad ymgynghorol gan yr Athrawes Arbenigol i rannu adnoddau/ strategaethau a modelu gwers. 2 ymweliad gan yr Athrawes Arbenigol (cychwynnol ac adolygu) a rhwng 1 - 3 ymweliad i fodelu.
- Pecyn C: Ymweliad ymgynghorol gan yr Athrawes Arbenigol i rannu adnoddau / cynnig strategaethau. 2 ymweliad gan yr Athrawes Arbenigol (cychwynnol ac adolygu). Bwydo yn ôl i'r fforwm.

Mae'r nifer isod yn derbyn y mathau gwahanol o fewnbwn yn bresennol.

| Derbyn Pecyn A+ | Pecyn A | Pecyn B | Pecyn C |
|---|---|---|---|
| 8 disgybl | 13 disgybl | 12 disgybl | 6 disgybl |

| Cynhodeb Blaenoriaethau Datblygiad |
|---|
| • Gweithio tuag at sefydlu llyfrgell o adnoddau'r Tîm y gellir eu benthyg i Ysgolion.<br>• Treialu profion safonedig er mwyn dethol profion addas i ddatblygu amrediad o asesiadau y gall y Tîm eu cynnig. Bydd hyn yn cynorthwyo ysgolion i asesu angen.<br>• Hybu'r defnydd o'r offeryn Hunan Asesu ADP er mwyn adnabod meysydd angen mewn ysgolion, a chryfhau'r ddarpariaeth o fewn yr ysgolion – pob ysgol wedi cwblhau'r ymarfer |

# Atodiad 5

## Gwasanaeth Synhwyraidd a Chorfforol Meddygol

Nòd y gwasanaeth Synhwyraidd/CMedd yw i sicrhau **integreiddiad i fywyd ysgol a mynediad i'r cwricwlwm dysgu** i holl ddisgyblion sydd wedi derbyn diagnosis o gyflwr corfforol/meddygol neu o nam Synhwyraidd ( Clyw neu Golwg)
Drwy weithio'n aml asiantaethol gyda'r sector iechyd rydym yn cefnogi'r disgyblion, eu rhieni a'r ysgolion i sicrhau fod pob disgybl yn cael mynediad i fyd addysg.
**Gwasanaeth Synhwyraidd**- Yn dilyn meini prawf mynediad i'n gwasanaethau synhwyraidd - rydym yn derbyn cyfeiriadau i'n gwasanaeth yn uniongyrchol o'r gwasanaeth Iechyd.
Gan ddilyn canllawiau a safonau cenedlaethol y 'National Sensory Impairment partnership ( Natsip) rydym yn cynnig gwasanaeth wedi ei lefelu yn yr ôl angen unigol ar gyfer pob disgybl a lleoliad dysgu ( lefelau ymyrraeth yn amrywio o A1 i C3 )

**Gwasanaeth CMEDD**.- Derbynnir cyfeiriadau i'r gwasanaeth CMedd yn uniongyrchol o'r gwasanaeth iechyd neu gan ysgolion drwy'r fforymau ardal.
Pennir lefel ymyrraeth y gwasanaeth CMEDD wrth asesu angen y disgybl unigol /ysgol yn unol â meini prawf y gwasanaeth.
*Gweler - meini prawf y gwasanaeth CMedd .

Ein prif nod fel gwasanaeth yw sicrhau **cynhwysiad ag integreiddiad** ein disgyblion i fyd addysg ac i fywyd ysgol.

**Staffio'r Gwasanaethau :**

| Gwasanaeth Corfforol Meddygol (CMedd ) | Gwasanaeth Synhwyraidd Nam Clyw | Gwasanaeth Synhwyraidd Nam Golwg |
|---|---|---|
| | 1 x Uwch Athrawes Synhwyraidd/ CMedd | |
| 1 x Athrawes Arbenigol | 2.0 x Athrawes Arbenigol Nam Golwg | 1.7 x Athrawes Arbenigol nam Clyw |
| | 0.4 x athrawes nam Golwg dan hyfforddiant . | |
| 1 x Uwch gymhorthydd arbenigol ( lefel 4 ) | 2 x uwch gymorthyddion Nam Golwg ( lefel 4 ) | 1 x Uwch gymhorthydd arbenigol Nam Clyw ( Lefel 4 ) |
| | | 1 x cymhorthydd arbenigol Nam Clyw ( lefel 3 ) |
| 1 x asesydd risg – Symud a Thrin | | |

**I ba raddau mae'r Gwasanaeth yn cael effaith ar ansawdd darpariaeth ADY o fewn Ysgolion Môn?**

Mae hyfforddi staff sydd yn cefnogi ein disgyblion ar lawr dosbarth yn uniongyrchol yn effeithio ar gynnydd ein disgyblion ar draws nifer o feysydd- o gynnydd addysgol i hyder personol. Mae

hyfforddiant yn chwarae rôl hanfodol i sicrhau hyder staff ag ysgolion i gynhwysiad ag integreiddiad ein disgyblion i fywyd llawn ysgol.


Cynigir hyfforddiant **yn ôl yr angen unigol** ar gyfer pob disgybl / ysgol unigol a bydd yr hyfforddiant yn cael ei deilwrio i ymateb i ofynion unigol a lefel yr angen.
Gweler y tabl isod sy'n rhoi trosolwg o natur hyfforddiant a gynhaliwyd ar draws Ynys Môn - Medi 2018-presennol .


| Nam Clyw | Nam Golwg | CMedd |
|---|---|---|
| Hyfforddiant ar ddefnyddio offer arbenigol - <br><br> 6 ysgol | Hyfforddiant arbenigol ar gyfer ysgolion arbennig – Positive looking – <br><br> staff dynodedig o 1 ysgol | Hyfforddiant clefyd siwgr- cyd weithio ag adran iechyd – Hyfforddi yn ystod Mis Medi a Mai <br> 6 ysgol |
| Hyfforddiant cyfathrebu clir <br><br> 6 Ysgol | Hyfforddiant ar offer arbenigol - <br><br> 3 ysgol | Hyfforddiant i ddatblygu sgiliau motor man – <br><br> 4 ysgol |
| Hyfforddiant ar gyfer cymhorthydd newydd <br><br> 2 ysgol | | Hyfforddiant epilepsi – <br><br> 6 ysgol |
| Hyfforddiant i ysgol arbennig – ar y cyd ag adran awdioleg- <br><br> 1 Ysgol | | Hyfforddiant ar offer arbenigol - <br><br> 1 ysgol |
| Hyfforddiant ar adnodd arbenigol - <br><br> 1 ysgol | | Hyfforddiant i gymorthyddion – ysgol gyfan ar gyflwr penodol <br><br> 1 ysgol |
| Hyfforddiant ar y cyd gydag NDCS - asiantaeth wirfoddol i godi ymwybyddiaeth - <br><br> 4 ysgol | | |
| Sesiynau arbenigol wedi ei deilwrio ar gyfer disgyblion - Cael eu cynnal ar y Bws gwrando. <br> Sesiynau wedi eu teilwrio o ran oedran- <br> 'pwy ydw i?' <br> Offer/Technoleg . <br> Fy nyfodol. <br> Sesiwn cyn ysgol – rhieni a phlant ifanc. <br> Sesiwn I ddigyblion 16+ | | |

Online training -OLT
Yn ystod 2017/18 llwyddodd 5 athrawes arbenigol (Clyw a Golwg) gymhwyso fel hyfforddwyr arbenigol i arwain a mentora ar gyrsiau arbenigol OnlineTraining (OLT) - Nam Golwg a Nam Clyw.

Yn y flwyddyn gyntaf llwyddodd **45 o gymorthyddion** sy'n cefnogi disgyblion dwysaf Clyw a Golwg ar draws Môn a Gwynedd i ddilyn cwrs o fewn eu maes arbenigol . Mae'r cwrs yn cynnwys **o leiaf** dau sesiwn torfol ( 2 x ½ diwrnod ) o dan arweiniad athrawes arbennigol ag o leiaf awr y wythnos o fewnbwn unigol am oddeutu 20 wythnos. Mae hefyd yn ofynnol fel rhan o'r cwrs i gyfrannu yn rheolaidd i fforwm arbennig. Bydd cynnydd pob unigolyn yn cael ei dracio gan yr athrawon arbennigol.
Ers medi 2018 rydym fel gwasanaeth wedi rheadru'r cwrs ymhellach i gofrestru **21 unigolyn** arall sydd bellach yn cynnwys cynulleidfa ehangach o gymhorthyddion, athrawon, dirprwy bennaeth ag athrawes o fewn ysgol arbennig. Bydd y 'cohort' yma yn cwblhau'r cwrs Mis Mehefin 2019.

Gweler isod ddata yn gwerthuso'r cyrsiau arbennigol – hyder yr unigolyn cyn ag ar ôl dilyn y cwrs wrth ymateb i anghenion disgybl nam Clyw neu Nam Golwg.



Projectau :
Swyddog Symudedd:  Mae'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn hyfforddi swyddog symudedd o fewn y gwasanaeth Nam Golwg. Bydd yn unigolyn yn cymhwyso Haf 2020 ac yn gallu cynnig asesiadau symudedd a sgiliau byw a chynnig rhaglen hyfforddi yn ôl angen unigol pob disgybl Nam Golwg .ee . Asesu angen a hybu sgiliau ag annibyniaeth disgybl Nam Golwg sy'n defnyddio ffon wen i symud o gwmpas yn ddiogel.

Positive eye : Rydym wedi cynnig hyfforddiant a phecyn gweithio 'positive eye' i dargedu disgyblion Nam Golwg mewn ysgolion arbennig. O dan arweiniad y tîm o athrawon arbenigol mae'r disgyblion yn derbyn cynllun arbennig i ddatblygu sgiliau yn y maes Nam Golwg.

Offer/Technoleg: Mae buddsoddiad sylweddol wedi cael ei wneud yn y maes Technoleg er mwyn sicrhau bod ein disgyblion yn cael budd o'r offer / Technoleg ddiweddaraf. Gyda newidiadau a dyfeisiadau newydd yn cael eu lansio yn flynyddol  bydd angen i ni  fel gwasanaethau barhau i fuddsoddi yn y maes hwn  er mwyn sicrhau bod disgyblion Môn yn cael defnydd o'r Dechnoleg ddiweddaraf.

Prosiect i'w barhau a'i ddatblygu ar gyfer y dyfodol yw datblygu hunaniaeth ein disgyblion o fewn y gwasanaethau.

Gan roi ystyriaeth i natur integreiddio ein gwasanaethau gall disgybl synhwyraidd/Cmedd fod yr unig ddisgybl o fewn ysgol. Mae cynnig cyfleoedd i gyfarfod a rhyngweithio a disgyblion eraill (ag anghenion tebyg ) yn hanfodol i ddatblygu eu hunaniaeth, hunan hyder a hunan ddelwedd. Cynigwyd sesiwn arbennig i ddisgyblion 15+ nam Clyw i gyfarfod a thrafod â disgyblion a oedd yn agored i'r gwasanaeth yn y gorffennol,  ond sydd bellach ym myd gwaith, coleg neu mewn cwrs hyfforddiant  bellach. Roedd dylanwad a chyngor y cyn-ddisgyblion yn amhrisiadwy i'r disgyblion ifanc sydd ar drothwy cyfnod newydd yn eu bywydau.

(Roedd cyd weithio â chyflogwyr lleol i ryddhau cyn-ddisgyblion o'u gwaith/cyrsiau yn hanfodol ac yn werthfawrogol  er mwyn sicrhau fod y  cyfleoedd  hyn yn gallu digwydd-  ( ee cwmni Babcock ynys Môn yn rhyddhau cyn-ddisgybl i fynychu.)

**<u>I ba raddau mae'r Gwasanaeth yn darparu yn ôl y gofyn i Ysgolion, ac yn gweithredu drwy roi'r disgybl yn ganolog?</u>**

Gweler Atodiad 10 ar gyfer gwybodaeth ddiweddar o'r Holiadur Gwasanaeth.

**Llais y Plentyn** :

Mae llais y plentyn  yn ganolog i'n gwasanaethau.

Wrth fonitro anghenion disgybl rydym yn defnyddio nifer o holiaduron i gasglu llais  a barn y plentyn ee ' holiadur sut mae pethau'n mynd? Lle wyt ti arni ? Holiadur trosglwyddo cynradd /Uwchradd, holiadur T.E.A.CH.

Mae adrodd  yn ôl ar  lais a barn y plentyn yn ganolog yn ein hadroddiadau a'n  argymhellion i ysgolion  Adroddir ar  farn y plentyn i'w fynediad i wersi neu anawsterau mewn sefyllfaoedd penodol - ee. Disgybl  Nam Clyw dim yn gallu dilyn gwers Gwyddoniaeth oherwydd bod yr athro yn cerdded o gwmpas y dosbarth. Disgybl Nam Golwg ddim yn gallu gweld y gwaith ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol yng ngwers Mathemateg oherwydd ongl y bwrdd gwyn ayb.

Wrth lunio targedau unigol ar gyfer unrhyw ddisgybl daw'r wybodaeth graidd i lunio targedau o lais y plentyn drwy ddefnyddio adnoddau megis ‘hawdd / haws’. Yn dilyn trafodaeth, y plentyn sy’n dewis targedau sy’n bwysig ac yn berthnasol iddo/iddi. Ee. Targed disgybl - Gallu darllen llyfr o’r un maint print a’i gyfoedion (Dim copi wedi chwyddo) - Camau i gyrraedd y targed - Datblygu sgiliau a hyder y disgybl i ddefnyddio offer ( ipad , offer arbennigol) i chwyddo a thracio print llyfr arferol.

Wrth gyfrannu at Gynllun datblygu Unigol disgybl Synhwyraidd/Cmedd bydd llais y plentyn yn ganolog o ran be sy’n bwysig i’r plentyn unigol.

**<u>I ba raddau mae’r Gwasanaeth yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau, cyrhaeddiad a lles disgyblion sydd yn derbyn Gwasanaeth?</u>**

| | **Nam Clyw** | **Nam Golwg** | **CMedd** | **Tîm cyfan** |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer sy’n** agored i’r Gwasanaeth % | 74 | 60 | 69 | 203 |

**Synhwyraidd :** I sicrhau ein bod yn ymateb i angen ac yn cynnig cysondeb o ran mewnbwn, defnyddi’r canllawiau cenedlaethol ‘National Sensory Impairment Eligibility framework’ i ddynodi angen disgybl unigol a’r angen am fynediad i lefel angenrheidiol o fewnbwn ein gwasanaeth . Dynodir sgôr ar gyfer pob asesiad uchod a bydd sgôr cyfanswm yn pennu dyraniad lefel ymyrraeth ein gwasanaeth. Grwpir pob achos i lefel A, B, C neu Ch, gyda A yn dynodi’r lefel uchaf o fewnbwn. Bydd pob disgybl yn cael eu hasesu’n ffurfiol gydag asesiad NatSip **dwywaith y flwyddyn.-** Mis Medi a Mis Mai**.**

**CMEDD :** I sicrhau ein bod yn ymateb i angen ac yn cynnig cysondeb o ran mewnbwn defnyddir y meini prawf i ddynodi angen disgybl unigol/ lleoliad dysgu i sicrhau lefel mewnbwn addas i ’r gwasanaeth. Mae’r raddfa yn seiliedig ar y gwaith NatSip. Grwpir pob achos i lefel A, B, C a Ch yn yr un modd.

Bydd pob disgybl yn cael eu hasesu’n ffurfiol **dwywaith y flwyddyn.-** Mis Medi a Mis Mai**.**

| Lefel o ymyrraeth y gwasanaethau arbenigol. | Nam Clyw | Nam Golwg | CMedd |
|---|---|---|---|
| Mis Medi 2018 | | | |
| A | 8% | 30% | 22% |
| B | 8% | 26% | 33% |
| C | 59% | 33% | 30% |
| Ch | 25% | 11% | 15% |
| Mis Mai 2019 | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A | 10% | 28% | 13 % |
| B | 10% | 26% | 21% |
| C | 62% | 35% | 46% |
| Ch | 18% | 9% | 18% |

Bydd pob disgybl unigol yn cael ei drafod fel gwasanaeth cyn pob Fforwm ardal i sicrhau ein bod fel gwasanaeth yn ymateb yn syth i unrhyw angen.

**Asesiadau Risg :**
Rydym bellach wedi gallu casglu data cyfredol sy'n adnabod angen, amser a dyddiad adolygu holl asesiadau risg **symud a thrin ar gyfer disgyblion CMEDD** –Lleoliadau Prif lif ag ysgolion arbennig. Môn : Mae 26 disgybl wedi cael eu hadnabod ag angen am asesiad risg. Gall hyn gynnwys nifer o asesiadau risg ar gyfer sefyllfaoedd amrywiol ee . asesiad risg 'hoistio', pwll hydro ayb . Cwblhawyd asesiadau risg llawn ar gyfer 22 o ddisgyblion Môn ers Medi 2018. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu yn ôl dyddiad angen.

**Data fforymau : Gwynedd a Môn:**
Daw ein cyfeiriadau fel gwasanaethau yn uniongyrchol o'r adran iechyd neu yn achlysurol o'r ysgolion drwy'r fforymau. Asesir pob cyfeiriad yn y fforymau ardal .

| Data Cyfansawdd - Medi 2018 – Mai 2019 | Ceisiadau newydd | Achos yn cau ( ddim yn cynnwys plant sy'n oed gadael ysgol) | Cais newydd ( cyn ysgol) |
|---|---|---|---|
| Nam Clyw | 42 | 7 | 8 |
| Nam Golwg | 14 | 8 | 4 |
| CMedd | 10 | 12 | 7 |

Nòd ag un o brif amcanion cynllun busnes y gwasanaethau synhwyraidd/ CMedd yn ystod 2017/18 oedd sefydlu mesuryddion y gwasanaeth.
Rydym fel gwasanaeth bellach wedi datblygu mesuryddion y gwasanaethau unigol ac wedi casglu data gwaelodlin a data ail asesu ar gyfer tracio cynnydd y disgyblion rydym yn eu cefnogi. Bydd y data yn ein galluogi fel gwasanaeth i gael trosolwg eang o ddatblygiad a chynnydd y **plentyn cyfan** - defnyddir Therapy Outcomes measures scale ( TOMS), asesiadau NatSIP, asesiadau sgiliau meddal (lles y disgybl, cyfathrebu a defnydd unigol o offer arbenigol) yn ogystal ag asesiadau arbenigol a phenodol ar gyfer y gwasanaethau unigol ee Braille , arwyddo . Bydd pob plentyn sy'n derbyn mewnbwn rheolaidd y gwasanaethau – grwpiau targed A a B yn cael eu hasesu dwywaith y flwyddyn ( Mis Medi a Mis Mai) ag unrhyw gynnydd/ dirywiad yn cael ei dracio.

**TOMS .Therapy Outcomes Measures**.

Asesir pob disgybl 2 waith y Flwyddyn – ( Mis Medi a Mis Mai) ar draws 4 maes i gyfrifo sgôr cyfanswm. Gweler Atodiad 3 (Gwasanaeth Seicoleg Addysgol) am ddisgrifiad o'r TOMs.

Bydd tracio unrhyw gynnydd/dirywiad yn dilyn graddfa -

| | | |
|---|---|---|
| Cynnydd da iawn +3 | Cynnydd da +2 | Cynnydd digonol +1 |
| Dim cynnydd 0 | Dirywiad - | |

Nam Clyw :

| | |
|---|---|
| Amhariad | 94 % Sgôr yn parhau'r un fath |
| | 5 % wedi dangos cynnydd |

| | |
|---|---|
| Cyfraniad | 23 % wedi dangos cynnydd |
| | 77 % wedi parhau yr un fath |
| Gweithgaredd | 29 % wedi dangos cynnydd |
| | 70 % wedi parhau'r un fath |
| Lles | 35 % wedi dangos cynnydd |
| | 58% wedi parhau'r un fath |
| | 6% wedi dirywio . |
| Sgôr cyfanswm | 18% wedi gwneud cynnydd da iawn +3 |
| | 6 % wedi gwneud cynnydd da +2 neu fwy |
| | 29% wedi gwneud cynnydd digonol |
| | 41 % heb ddangos cynnydd |
| | 6 % wedi dirywio. |

CMedd

| | |
|---|---|
| Amhariad | 88% wedi parhau yr un fath<br>11% wedi gwneud cynnydd |
| Cyfraniad | 33% wedi dangos cynnydd<br>67% wedi parhau'r un fath |
| Gweithgaredd | 33% wedi dangos cynnydd<br>66% wedi parhau'r un fath |
| Lles | 66% wedi dangos cynnydd<br>33% wedi parhau'r un fath |
| Sgôr cyfanswm – ar draws y meysydd | 22% wedi gwneud cynnydd da iawn +3 |
| | 33% wedi gwneud cynnydd da +2 |
| | 11% wedi gwneud cynnydd digonol +1 |
| | 33% heb ddangos cynnydd |
| | 0% wedi dirywio. |

Nam Golwg :

| | |
|---|---|
| Amhariad | 13% wedi dirywio<br>87 % heb ddangos cynnydd |
| Cyfraniad | 16 % wedi dangos cynnydd<br>84% heb wneud cynnydd |
| Gweithgaredd | 22% wedi dangos cynnydd<br>78% heb ddangos cynnydd |
| Lles | 10% wedi dangos cynnydd<br>90% heb ddangos cynnydd |
| Sgôr cyfanswm ar draws y meysydd | 3% wedi gwneud cynnydd da iawn +3 |
| | 13% wedi gwneud cynnydd da +2 |
| | 19% wedi gwneud cynnydd digonol +1 |
| | 55% heb ddangos cynnydd |
| | 9% wedi dirywio. |

Gwelir o'r sampl – oherwydd natur 'feddygol' y gwasanaethau – ni welir yn aml gynnydd yn lefel **amhariad** y disgybl . Gall lefel amhariad hefyd ddangos dirywiad ac felly yn annatod effeithio gweithgaredd , cyfraniad a lles disgybl. ee. lefel Nam Golwg yn gwaethygu'n sylweddol, neu ddiagnosis CMedd yn dangos dirywiad yn y cyflwr.

Dylid cymryd ystyriaeth o hyn wrth ddadansoddi'r sgôr cyfanswm a phosibilrwydd ddisgybl i ddangos dirywiad yn y sgôr hyn . Cyfyngir hyn yn annatod hefyd ar botensial yr asesiadau i ddangos cynnydd **ar yr un raddfa** ag anghenion dysgu Ychwanegol eraill.

Wrth ystyried y garfan o ddisgyblion uchod bydd unrhyw gynnydd yn debygol o ddilyn y **duedd o gynnydd araf dros gyfnod hirach o amser.**

Golygai hyn fod natur ( sef sicrhau mynediad a chynhwysiad ) ac effaith y gwasanaeth synhwyraidd /CMedd - yn aml yn wahanol i wasanaethau ADY eraill ( lle efallai byddai mewnbwn tymor llai estynedig yn cael effaith ar gynnydd disgybl ac o ganlyniad achos yn cau i'r gwasanaeth )
Gwelir tuedd gwahanol wrth edrych ar ddata Disgyblion synhwyraidd/CMedd.

# Atodiad 6

## Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio

Pwrpas y Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio yw hyfforddi, rhoi arweiniad a chefnogaeth i staff mewn ysgolion sy'n gweithio gyda phlant phobl ifanc sydd ar y Sbectrwm Awtistiaeth a phlant a phobl ifanc sydd ag anawsterau cyfathrebu (deall a defnyddio iaith).


Mae'r Tîm arbenigol sydd yn gweithio yn Ynys Môn yn cynnwys 2.5 o Athrawon Arbenigol a 4.5 o Gymorthyddion Arbenigol. Mae cyfeiriadau i'r Gwasanaeth yn dod o bob ysgol Gynradd ac Uwchradd ym Môn.

**<u>I ba raddau mae'r Gwasanaeth yn cael effaith ar ansawdd darpariaeth ADY o fewn Ysgolion Môn?</u>**

Ers sefydlu'r Gwasanaeth newydd hwn yn Medi 2017, mae 156 o ddisgyblion Ynys Môn wedi derbyn mewnbwn gan y Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio. Mae'r ffigwr yn cynyddu bob mis – dros y 6 mis diwethaf mae'r nifer disgyblion wedi cynyddu 51%. Mae'r Gwasanaeth yn darparu'r canlynol i Ysgolion a disgyblion Môn:

- **Cefnogaeth gan Athrawes Arbenigol** - bydd Athrawes yn ymweld â'r ysgol i roi arweiniad i athrawon a chymorthyddion yr ysgol yn y dosbarth gyda'r disgyblion
- **Cefnogaeth gan Uwch Gymhorthydd/Cymhorthydd Arbenigol** - gellir lleoli Cymhorthydd yn yr ysgol i roi cymorth arbenigol i blant
- **Darpariaeth Canolfan Arbenigol** – gall disgyblion fynychu'r Ganolfan Anhwylderau Iaith yn Llandegfan neu'r Ganolfan Cyfathrebu a Rhyngweithio ym Mangor
- **Hyfforddiant Awtistiaeth ac Anawsterau Cyfathrebu** - hyfforddiant dalgylch cyfan, ysgol gyfan neu hyfforddiant penodol yn ymwneud ag anghenion penodol.

Mae'r 124 o ddisgyblion sy'n derbyn cefnogaeth gan y Gwasanaeth heddiw yn derbyn mewnbwn fel a ganlyn:



**Hyfforddiant**

Mae dau brif hyfforddiant yn cael ei gynnig i Ysgolion Môn gan y Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio ar hyn o bryd:

a) **Cyfathrebu Cyfeillgar (19 ysgol wedi eu hyfforddi hyd yma - dyddiadau wedi eu pennu ar gyfer gweddill ysgolion Môn) -** Hyfforddiant wedi ei gynllunio ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol, a'r Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd er mwyn:

- Datblygu dealltwriaeth staff o hanfodion cyfathrebu
- Sut i gefnogi sgiliau cyfathrebu ar lawr dosbarth a drwy ymyraethau penodol
- Cyflwyno newidiadau cenedlaethol am y diagnosis o Anhwylderau Iaith Ddatblygiadol.
- Cyflwyno Meini Prawf y Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio
- Hwyluso adnabyddiaeth o ddisgyblion sydd angen eu cyfeirio at y gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd/ Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio am gefnogaeth bellach.

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y rhai sydd wedi mynychu'r hyfforddiant hwn, gyda 100% o Athrawon, Cydlynwyr a Chymorthyddion yn nodi eu bod o'r farn fod yr hyfforddiant yn "ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol dros ben".

b) **Hyfforddiant wedi ei selio ar "Dysgu gydag Awtistiaeth" (3 Ysgol wedi eu hyfforddi hyd yma) -** rhaglen a ddatblygwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) i godi ymwybyddiaeth ynghylch ac Awtistiaeth mewn ysgolion. Mae 'r Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio yn ceisio hwyluso'r broses i Ysgolion geisio am y Wobr Ddysgu gydag Awtistiaeth drwy gynnig yr hyfforddiant Awtistiaeth i bob aelod o staff fel man cychwyn (gan gynnwys staff ategol a llywodraethwyr).

Ar hyn o bryd y gwasanaeth sydd yn cynnig ac yn trefnu hyfforddiant mewn ysgolion ym Môn - y gobaith ydi y bydd ysgolion y flwyddyn nesaf yn blaenoriaethu ac yn gofyn am hyfforddiant yn y meysydd uchod.

**Prosiectau**

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn ymwneud gyda phrosiectau penodol:

a) **Yotism -** Mae un o'r athrawon arbenigol, fel rhan o'i chwrs ôl-radd yn rhedeg Prosiect Peilot yn cynnig 2 Sesiwn Yotism (Yoga ar gyfer unigolion ar y Sbectrwm Awtistiaeth) i ddisgyblion cynradd, gan uwch sgilio cymorthyddion ADY i'w galluogi i barhau gyda hyn yn eu hysgolion.


b) **Llais y Disgybl -** Mae'r gwasanaeth yn adnabod disgyblion hyn sydd ar y sbectrwm Awtistiaeth sydd wedi derbyn cefnogaeth gan y Gwasanaeth yn y gorffennol i gyd-weithio gyda ni fel tîm i ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant i ysgolion.

**<u>I ba raddau mae'r Gwasanaeth yn darparu yn ôl y gofyn i Ysgolion, ac yn gweithredu drwy roi'r dysgwyr yn ganolog?</u>**

Fel y Gwasanaethau eraill o fewn y Tîm ADY a Ch, mae'r Gwasanaeth yn defnyddio dulliau person ganolog ar gyfer rhoi'r plentyn a'r teulu yng nghanol y broses.

**I ba raddau mae'r Gwasanaeth yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau, cyrhaeddiad a lles disgyblion sydd yn derbyn Gwasanaeth?**


Dengys y graff isod fod 32 o'r 156 disgybl sydd wedi derbyn mewnbwn gan y Gwasanaeth bellach yn gallu mynychu eu hysgol heb fod angen cymorth arbenigol gan y Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio. Mae hyn yn dystiolaeth o lwyddiant y gefnogaeth a ddarperir.




**Canolfannau Arbenigol**
Ar hyn o bryd mae 10 o blant o ysgolion Môn yn mynychu'r Uned Anhwylderau Iaith yn Llandegfan. Mae 3 wedi dychwelyd i'w hysgolion prif lif yn Ebrill a bydd 4 arall yn dychwelyd cyn yr haf. Golyga hyn y bydd 70% wedi gallu dychwelyd yn llwyddiannus ar ôl cyfnod byr yn y Ganolfan. Pan mae disgybl yn gadael y ganolfan mae yna un arall yn cymryd ei le yn syth fel bod y ganolfan yn llawn drwy'r flwyddyn. Mae disgyblion eisoes wedi eu hadnabod ar gyfer mynychu'r ganolfan ym Mis Medi.

Roedd 3 disgybl o Fôn hefyd yn mynychu'r Ganolfan Cyfathrebu a Rhyngweithio (Awtistiaeth) ym Mangor ac mae'r 3 unigolyn yma hefyd wedi trosglwyddo'n ôl i'w hysgolion prif lif erbyn hyn.

**Effeithiolrwydd y Gwasanaeth**
O ran effeithiolrwydd y gefnogaeth a gynigir gan y Gwasanaeth, rydym yn mesur hyn drwy ddefnyddio 'Therapy Outcome Measures' (TOMs). Mae TOMs yn ddull sy'n cael ei ddefnyddio'n eang gan weithwyr proffesiynol i fesur cynnydd plentyn. Rydym yn asesu'r disgybl cyn iddo/iddi dderbyn mewnbwn gan y Gwasanaeth ac yna'n ail asesu wedi cyfnod o gefnogaeth gan Athrawes/Gymhorthydd Arbenigol neu gyfnod mewn Canolfan. Mae 63 o ddisgyblion wedi derbyn yr ail asesiad ar hyn o bryd ac mae'r cynnydd fel a ganlyn:




Mae'r data yn dangos bod unigolion sydd ar y Sbectrwm Awtistiaeth neu sydd ag anhawster deall a defnyddio iaith yn gallu gwneud cynnydd gyda'r ymyrraeth â'r gefnogaeth gywir.

| **Crynhodeb o Flaenoriaethau Datblygu** | |
|---|---|
| - I bob ysgol fod wedi derbyn yr hyfforddiant Cyfathrebu Gyfeillgar Mon a Gwynedd<br>- I bob ysgol fod wedi dilyn yr hyfforddiant Dysgu gydag Awtistiaeth<br>- I barhau i ddatblygu gwasanaeth sydd yn integredig gyda'r mewnbwn therapy Iaith a lleferydd | |

# Atodiad 7

## Gwasanaethau Cynhwysiad

**Pwrpas y Gwasanaethau**

Mae'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad yn cyd-weithio ag ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn i geisio newid cadarnhaol mewn ymddygiad pobl ifanc sydd yn profi anawsterau ymddygiadol, emosiynol a datblygiad cymdeithasol. Ein nod yw gwella ymddygiad a lleihau'r risg o waharddiad o ysgol. Mae pedair elfen o fewn y Gwasanaeth:

- Ymyrraeth Gynnar
- Llechen Lan
- Pecyn 25
- Addysg Gartref (Plant Sâl)

**<u>I ba raddau mae'r Gwasanaeth yn cael effaith ar ansawdd y ddarpariaeth ADY o fewn Ysgolion Môn?</u>**

**Proses Ansawdd Fforymau a Phaneli**

Mae'r gwasanaeth wedi datblygu systemau cyfeirio cadarn.

- Mae'r drefn erbyn hyn yn hysbys a dealladwy i 'r rhan halaethaf o ysgolion mewn perthynas â'r gofynion cyfeirio a'r gwahaniaeth rhwng fforwm a phanel.
- Mae'r ddogfennaeth gywir yn dod i law ar gyfer fforwm sy'n dangos tystiolaeth o weithredu gan ysgolion a chydweithredu ymysg timau, o flaen llaw.
- Trefn gwirio a sgrinio gan y swyddogion ansawdd a'r staff gweinyddol yn help mawr mewn perthynas â chyfeiriadau anghyflawn yn brydlon

**Hyfforddiant**

Er mwyn cryfhau gweithdrefnau ysgolion mewn ymateb i ymddygiad heriol mae rhaglen hyfforddiant y gwasanaeth yn cael ei gwireddu.

MAPA (Management of Actual or Potential Aggression) a Pivotal MAPA

- Hyfforddiant MAPA yn rhedeg yn effeithiol erbyn hyn. Bydd hyfforddiant Pivotal MAPA yn cael ei gyflwyno o fis Medi 2019 ymlaen
- Rhagor o staff ADYaCh yn derbyn hyfforddiant 'train the trainer' ym mis Gorffennaf 2019 fydd yn hwyluso ehangu'r hyn ellir ei gynnig fel hyfforddiant diwrnod 'refresher' yn ogystal â'r hyfforddiant deuddydd cychwynnol.
- Trwy gydweithrediad a chwmni CPI, holl hyfforddiant Pivotal MAPA wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg.
- Rhagor o staff yn derbyn hyfforddiant ar argymhelliad gan fforwm ardal. 43 o staff ysgolion Môn wedi derbyn hyfforddiant MAPA eleni rhwng Hydref 2018 a Mawrth 2019
  (1 Hyfforddiant eto i wneud ar ddiwedd Mehefin 2019 - bydd 15 yn mynychu.)

Yn ogystal:

- Ysgolion yn ymwybodol o'u dyletswydd mewn perthynas ag adnabod arwyddion cynnar pryder ,dulliau ymateb addas rhag i sefyllfaoedd ddwysau.
- Ysgolion yn magu hyder os oes angen defnydd ymyrraeth gorfforol ac yn ymwybodol o'r ffurflenni perthnasol sy'n ofynnol iddynt eu cwblhau.
- Taflen ymateb MAPA wedi ei datblygu er mwyn lleihau baich cofnodi
- Ffurflen ymyrraeth gorfforol genedlaethol wedi ei addasu er mwyn adlewyrchu egwyddorion Pivotal MAPA
- Bas-data i gofnodi'r uchod wedi ei sefydlu fydd yn cael ei ddadansoddi er mwyn adnabod bylchau,angen am ragor o hyfforddiant neu ymweliadau top-up ag ysgolion

Ysgolion sy'n Annog (National Nurturing Schools Programme, NNSP)

- Rhaglen NNSP wedi rhedeg ers 12 mis ymhob ysgol uwchradd. Bydd y rhaglen 2 flynedd yn dod i ben ym Medi 2020 ac yn cael ei harwain gan y Dirprwy Brif Seicolegydd, sydd yn arwain ar gynhwysiad.
- Nifer o Ysgolion cynradd hefyd yn datblygu dulliau Annog (Nurture)
- Er mwyn monitro a chryfhau ansawdd y rhaglen mae Ysgolion yn cydweithio mewn triawdau bellach er mwyn gweithio/ herio'i gilydd ar ddatblygiadau'r rhaglen

**I ba raddau mae'r Gwasanaeth yn darparu yn ôl y gofyn i Ysgolion, ac yn gweithredu drwy roi'r dysgwyr yn ganolog?**

Yn dilyn craffu ar ansawdd Cynlluniau Datblygu Unigol, arweiniad gan y Tîm Seicoleg Addysgol a defnydd phroffil Boxall, mae'r Gwasanaeth yn teilwra pecynnau ymyrraeth ar gyfer unigolion, grŵp a dosbarth cyfan ar bynciau fel adnabod dicter i'w gweithredu gan athrawon a chymorthyddion Ymyrraeth Gynnar dros gyfnod penodol o amser.


**<u>I ba raddau mae'r Gwasanaeth yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau, cyrhaeddiad a lles disgyblion sydd yn derbyn Gwasanaeth?</u>**

**Ymyrraeth Gynnar**

Mae'r Tîm Ymyrraeth Gynnar wedi bod yn rhoi mewnbwn i 58 o ddisgyblion ym Môn yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae'r nifer o blant sydd wedi symud ymlaen i dderbyn lleoliad Llechen Lan yn gymharol fychan, ac yn adlewyrchu cyd-weithio da ar gyfer parhau i gynnwys disgyblion yn llwyddiannus yn y prif lif.

Mae Ysgolion yn cynllunio'n bwrpasol er mwyn cynnal dysgwyr bregus yr Ynys gan ddefnyddio egwyddorion NNSP, hyn yn cynnwys grwpiau anogaeth Fewnol yn rhan o amserlen ysgolion.

**Llechan Lan**




- O ganlyniad i  agor lleoliadau penodedig a staff yn cwblhau rhaglen hyfforddiant cynhwysfawr mae safonau a chyfartaledd pob mesurydd cynnydd (Presenoldeb, Boxall, Lles emosiynol Disgybl, Lles Emosiynol Barn Rhiant) wedi codi 16%  i 77%.
- Mae presenoldeb pob dysgwr yn arbennig wedi codi 65% i sgôr cyfartalog o 96% sydd yn well na phresenoldeb gweddill dysgwyr yr Ynys (94.4%) a Chymru (93.8%)am yr un cyfnod.  Mae hyn yn gynnydd rhagorol sydd uwchlaw'r disgwyliadau
- 7 dysgwr wedi integreiddio'n ôl i Ysgolion a rhai yn parhau i dderbyn cefnogaeth gan staff yr Uned
- Roedd 4 o'r dysgwyr uchod yn dilyn amserlen wedi ei gwtogi'n sylweddol o fewn yr Ysgolion Prif Lif ac maent bellach i gyd yn mynychu'n llawn amser.
- Bron pob un wedi bod yn llwyddiannus sy'n golygu fod y ddarpariaeth wedi llwyddo i gyrraedd un o'i phrif amcanion sef sicrhau fod dysgwyr yn dychwelyd/ integreiddio'n llwyddiannus yn ôl i Ysgolion yn amserol.
- Gwasanaeth wedi addasu model i gefnogi dysgwr Uwchradd drwy fodelu gwaith yno gyda'r Ysgol.  Rydym yn hyderus y bydd hyn yn sicrhau deilliannau gwaddol o fewn yr Ysgol Uwchradd.

**Paneli/ Fforymau/ pecyn 25**

- Mae ansawdd ceisiadau a CDU ysgolion cynradd yn gyson dda ar y cyfan
- Er mwyn gwella cyfeiriadau o ansawdd o'r Uwchradd rydym yn cynnig hyfforddiant drwy'r grwp cynhwysiad a chynnig engreifftiau o arfer dda gan Ysgolion cynradd.
- Lleihad wedi bod yn nifer y dysgwyr sy'n cael eu cyfeirio am anawsterau iechyd meddwl i'r fforwm Plant Sâl ym Môn, mae hyn yn dystiolaeth o waith da ein hysgolion yn cynnwys a chefnogi dysgwyr bregus.
- Niferoedd cyfeiriadau am wasanaeth canolog yn arbennig yn CA4 wedi lleihau yn sylweddol eleni.
    - 9 dysgwr Sâl + ymddygiad yn gorffen Bl 11 Pecyn 25 eleni o'i gymharu â 28  yn 2017/2018
    - Pob dysgwr hanesyddol Môn (6) yn gorffen addysg statudol neu wedi dychwelyd i addysg prif Lif eleni sy'n creu arbediad sylweddol i'r adran addysg, a lleihau baich gwaith sylweddol i'r Gwasanaeth o fod yn paratoi a rheoli staff ac Adnoddau ehangach nad oedd wedi ei broffilio.
    - Bellach dim ond 5 disgybl sydd yn agored am wasanaeth Ymddygiad CA4 pecyn 25 ym Môn ar gyfer Medi 2019.
    - 3 disgybl Pecyn Plant Sâl fydd yn derbyn gwasanaeth yn dilyn i Bl11 ymadael ddiwedd Mis Mehefin

- Rydym yn rhagweld y bydd hyd at 5 disgybl yn derbyn cefnogaeth yn Uned CA2/3 Tŷ Cybi am gyfnod 12 wythnos ym mis medi 2019. Mae hyn yn dystiolaeth bellach o strwythur fforymau'r gwasanaeth yn adnabod dysgwyr yn fuan a chynnig gwasanaeth Ymestyn allan cyn gwneud cyfeiriad am wasanaeth tu allan i'r Ysgol yn yr Unedau.

- Mae Pecyn 25 wedi cefnogi 6 disgybl oedd yn wynebu Gwaharddiadau parhaol gan Ysgolion Uwchradd er Mis Chwefror eleni, sy'n golygu fod y dysgwyr wedi derbyn cefnogaeth i sefyll arholiadau TGAU gan y gwasanaeth a sicrhau deilliannau gorau posib i'r unigolion a chanlyniadau'r Ysgolion unigol.
- Yn dilyn cynllunio a gofalus, cyfathrebu cyson gyda rhieni a chynnig awyrgylch gadarnhaol o fewn ein Canolfannau does dim un dysgwr pecyn 25 yn gorffen heb gymhwyster eleni a'r Mwyafrif wedi adnabod lleoliad addysg neu waith ar gyfer Mis Medi (ôl 16). Mae hyn yn dda iawn o ystyried cefndir a rhagolygon Ysgol y dysgwyr hyn.

**Heriau**

- Dysgwyr Plant Mewn Gofal sydd ddim yn mynychu Ysgolion yn rheolaidd, gyda heriau sylweddol y tu allan i'r ysgol yn peri sialens o ran darparu addysg.
- Angen parhau i gryfhau gwydnwch rhai ysgolion yn delio a her ymddygiadol a dysgwyr bregus, hyn yn cael ei gyfeirio yn amserol o gyfarfodydd/ fforymau/ paneli i'r BAS.
- Angen ar gynllun newydd effeithlon ar gyfer Pecyn 25 wedi ei gynllunio ond heb fedru gweithredu arnynt, felly trafodaethau yn parhau am ddyfodol darpariaeth CA4.

**Datblygiadau ar y gweill**

- Cydweithio gyda Ysgolion Uwchradd yma Mon, a darparwyr eraill (e.e. Coleg Llandrillo Menai) ar gyfer edrych ar fodel gwahanol o ddarparu Pecyn 25, sydd yn rhoi gwell ystod o brofiadau a chymwysterau i'r dysgwyr. Mae'r gwaith yma wedi cychwyn eisioes.
  To work alongside Secondary Schools in Mon and Gwynedd, and other providers (e.g. Coleg Llandrillo Menai) to consider alternative models of providing Pecyn 25, which give a better range of experiences and qualifications.
- Cynllunio rhaglen o gymwysterau addas ar y cyd gyda Choleg Menai Llandrillo i ymateb i anghenion dysgwyr Môn sydd efallai ddim yn llwyddo yn CA4 ein hysgolion oherwydd natur y cyrsiau/ dewis sydd ar gael ac felly'n effeithio ar ymgysylltu ac ymddygiad yr unigolion yn arbennig rhai Prydau Ysgol am ddim a Phlant mewn Gofal.
- Cyfarfodydd Cyswllt Cynhwysiad yn cael eu sefydlu er mwyn sicrhau gwell cydweithio ar draws gwasanaethau a sicrhau bod prosesau a camau gweithredu mor gydlynnus a phosib gyda gwasanaethau eraill ym Môn.

| **Crynhodeb o Flaenoriaethau Datblygu** | **Camau** |
|---|---|
| - Adolygu/Addasu darpariaeth Pecyn 25 | Grwp tasg sydd yn cynnwys Penaethiaid Uwchradd yn cydweithio gyda'r Tim er mwyn cynllunio'r ddarpariaeth |
| - Cychwyn cyflwyno rhaglen hyfforddiant 'haen 2' ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da ar lefel ysgol gyfan (sydd yn cyd-fynd gyda MAPA a MAPA Pivotal) | Cyflwyno mewn cyfarfodydd dalgylchol, ac yna darparu ar lefel dalgylchol yn Nhymor yr Hydref |

| | |
|---|---|
| - Datblygu trafodaethau achos a strategol amlasiantaethol | Cyfarfod Cyswllt Cynhwysiad a Chyfarfod Strategol Cynhwysiad |

# Atodiad 8

## Gwasanaeth Cwnsela Ysgolion

Mae’r Gwasanaeth Cwnsela yn wasanaeth annibynnol sydd yn gweithio gydag ag ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn i gefnogi pobl ifanc sydd â phryderon cymdeithasol, emosiynol i gyrraedd eu llawn botensial. Ein nod yw cynnal anghenion emosiynol cymhleth y bobl ifanc yma a thrwy hynny gwella eu cyrhaeddiad addysgol.

Mae’r gwasanaeth yn gweithio yn bennaf yn yr Uwchradd gyda rhai dysgwyr yn cael mewnbwn i’r Gwasanaeth ym mlwyddyn 6.  Mae 0.4 Uwch Gwnselydd, a 2 Gwnselydd yn cefnogi ym Môn.

**<u>I ba raddau mae’r Gwasanaeth yn darparu yn ôl y gofyn i Ysgolion, ac yn gweithredu drwy roi’r dysgwyr yn ganolog?</u>**

Mae ethos y gwasanaeth cwnsela yn cynnwys rhoi'r cleient (dysgwr) yn gwbl ganolog, fel gwasanaeth mae ein dull cwnsela wedi selio ar ddamcaniaeth person-ganolog. Mae'r gwasanaeth cwnsela ysgolion yna ar gyfer y dysgwr.

Rydym yn cyd-weithio yn ddyddiol efo’r ysgolion i ddarparu’r gwasanaeth gan drafod os oes angen blaenoriaethu achosion brys neu ddwys.

Mae’r Gwasnaeth, ynghyd a’r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol, wedi cynllunio ffurflen ar y cyd ar gyfer i’r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, a’r Gwasaneth Cwnsela i fod yn defnyddio un ffurflen ar gyfer cyfeiriadau gan Feddygon Teulu.

**<u>I ba raddau mae’r Gwasanaeth yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau, cyrhaeddiad a lles disgyblion sydd yn derbyn Gwasanaeth?</u>**

Y llynedd cynhaliwyd 767 o sesiynau ar gyfer 152 o ddysgwyr, i gyd yn derbyn 5 sesiwn yr un ar gyfartaledd. Ers Medi 2018 mae 83 o ddysgwyr wedi eu cyfeirio at y gwasanaeth cwnsela, mae 34 yn aros am wasanaeth ar hyn o bryd.

Mae  490 o sesiynau wedi eu cynnal ers Medi 2018. Rydym yn defnyddio ffurflenni mesur deilliannau CORE o fewn y gwasanaeth (Clinical Outcomes in Routine Evaluation); dengys y rhain ar gyfartaledd fod dysgwyr yn teimlo yn well ar ôl derbyn sesiynau cwnsela.  Gweler hefyd Atodiad 10 ar gyfer gwybodaeth o’r Holiadur.

**Enghreifftiau o sylwadau gan ddysgwyr fel rhan o’r gwerthuso:**

<u>Sut gwnaeth cyfarfod y cwnselydd dy helpu?</u>

rydw i wedi sylwi fod llawer o bobl yn mynd drwy'r un peth a bod amseroedd caled yn gorffen ar ôl cyfnod o amser. Felly, dydw i ddim yn poeni am unrhyw amseroedd caled gan fy mod yn gwybod y byddaf yn medru mynd drwyddynt

<u>Oes gennyt sylwadau pellach am y gwasanaeth?</u>

Mae'r gwasanaeth wedi gwneud i mi ddod yn fwy ymwybodol o iselder a'i fod yn broblem fawr felly rydw i weithiau yn ceisio helpu fy ffrindiau

<u>Sut gwnaeth cyfarfod y cwnselydd dy helpu?</u>

Rwy’n teimlo fel fy mod yn fwy onest gyda fy hun a phawb arall o fy nghwmpas ers derbyn sesiynau.

<u>Oes gennyt sylwadau pellach am y gwasanaeth?</u>

Rwy'n ddiolchgar iawn ac yn gobeithio bydd y gwasanaeth yna i mi os rwyf ei angen eto.

| **Crynhodeb o Flaenoriaethau Datblygu** | |
|---|---|
| - Parhau trafodaethau gyda'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol, a Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) er mwyn sefyldu trefniadau trafod, a cyfeirio. Hynny er mwyn sicrhau fod cyfeiriadau yn mynd i'r gwasanaeth cywir, a hwyluso'r rhestrau aros.<br><br>- Cydweithio yn agosach gyda'r Gwasanaeth Seicoleg ar gyfer ymarfer ysgol gyfan, gan fod hynny hefyd yn debygol o gael ardrawiad ar restrau aros. | |

# Atodiad 9

## Gwasanaeth Lles Ysgolion

**Pwrpas y Gwasanaeth Lles Ysgolion yw:**

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn cyd-weithio ag ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn i ddarparu cymorth proffesiynol o safon i blant, pobl ifanc, teuluoedd ag ysgolion fel y gall plant a phobl ifanc elwa o'r ddarpariaeth addysgol a ddarperir ar eu cyfer. Ein nod yw gwella presenoldeb a thrwy hynny cyrhaeddiad addysgol ein pobl ifanc.

<u>Staffio Ynys Môn:</u>
Uwch Swyddog Lles (0.4)
Uwch Swyddog Diogelu (0.8)
Swyddogion Lles (4)

Mae'r lefel staffio ym Mon yn uwch nag yng Ngwynedd, ac yn uwch na'r darlun yn genedlaethol


**<u>I ba raddau mae'r Gwasanaeth yn darparu yn ôl y gofyn i Ysgolion, ac yn gweithredu drwy roi'r dysgwyr yn ganolog?</u>**


Mae'r gwasanaeth yn cyd-weithio yn hynod o agos a'r disgyblion a'u rhieni er mwyn ceisio hyrwyddo arferion presenoldeb a phwysigrwydd mynediad i addysg.

**<u>I ba raddau mae'r Gwasanaeth yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau, cyrhaeddiad a lles disgyblion sydd yn derbyn Gwasanaeth?</u>**

Mae presenoldeb Môn yn cymharu'n ffafriol o'i gymharu gyda lefel Cymru gyfan.

Mae'r Siartiau canlynol yn rhoi darlun cyfredol dros amser




**Gwaharddiadau**

Nid oes gwaharddiad parhaol wedi bod yn ystod y tair blynedd diwethaf.

**Disgyblion y mae rhieni yn dymuno eu haddysg gartref (EHE)**
Mae niferoedd EHE Môn yn ystod y ddwy flynedd diwethaf yn eithaf tebyg gyda lleihad o 5
2014-15 = 39
2015-16 = 47
2016-17 = 41
2017-18 = 36

Nid yw data 2018-19 ar gael eto, ond mae bosib y byddwn yn gweld twf bychan yn y nifer, sydd yn cyd-fynd gyda thueddiad cenedlaethol. Nid yw hyn fodd bynnag yn arwyddocaol o'i gymharu ag awdurdodau eraill.

Mae'r Gwasanaeth Lles yn gallu cyfarch yr anghenion statudol ar hyn o bryd Bydd y gofynion Statudol yn cynyddu yn dilyn cyflwyniad Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer EHE. Mae'n anorfod y bydd y gwaith o fonitro ansawdd yr addysg sydd yn cael ei gynnig yn cynyddu yn dilyn hyn. At present. The statutory obligations will increase following the instruction of Statutory Guidance for EHE. The will increase the workload of the service in monitoring the quality of the education being provided.

Er bod cynnydd sylweddol yn y nifer o deuluoedd sy'n dewis addysgu eu plant gartref yn genedlaethol mae'r ffigwr yn parhau yn weddol gyson ar Ynys Môn. ymweliad a phob teulu, yn fuan wedi iddynt ddatgan eu bwriad i addysgu gartref a chwblheir holiadur ynglŷn â'u bwriadau a'u cynlluniau. Ceisir ymweld â theuluoedd yn flynyddol wedyn. Mae gwybodaeth ynglŷn â cheisiadau newydd gael ei rannu gyda Teulu Môn.

| **Crynhodeb o Flaenoriaethau Datblygu** | |
|---|---|
| - Edrych ar system gyfeirio er mwyn gwirio'r mathau o gyfeiriadau sydd yn dod i mewn. Hynny er mwyn blaenoriaethu achosion yn fwy synhwyrol.<br>- Ail-edrych ar y fformiwla dyrannu adnoddau/amser S.Ll.A. Mon – anghydbwysedd o fewn yr Ynys.<br>- Datblygu rôl y Swyddog Lles/Diogelu ymhellach | |

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 13eg Fehefin 2019 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol 2018/19 y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Amlinellu'r camau a gymerwyd ers cyhoeddi'r Cynllun Llesiant ym 2018, i ymateb i'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn y cynllun. |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng. Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cyng. Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Dim yn berthnasol |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Nonn Hughes. Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn<br><br>01286 679906<br>NonnGwenllianHughes@gwynedd.llyw.cymru |
| **Aelodau lleol:** | Dim yn berthnasol i unrhyw ward benodol. |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini nodi:<br>1. Cynnydd gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae'r Cyngor yn darparu amrywiaeth o wasanaethau fydd yn cyflawni eu hamcanion llesiant unigol, yn ogystal â chyfrannu at a chefnogi amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. |

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cymhorth i Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd.

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio

| 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
|---|
| 1. I ba raddau y bu i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lwyddo i gyflawni ar y ffrydiau gwaith blaenoriaeth oddi mewn i'r amserlen a osodwyd?<br>2. Pa wersi bu i'r Bwrdd eu dysgu yn sgil y cynnydd hyd yma?<br>3. Beth oedd yr oblygiadau adnoddau wrth gyflawni ar y Cynllun Llesiant?<br>4. Beth ydy'r amserlen ar gyfer pennu dangosyddion perfformiad er mwyn mesur canlyniadau ffrydiau gwaith y Bwrdd yn lleol? |

## 5. – Cefndir / Cyd-destun

### 5.1 Cyflwyniad a chyd-destun

**5.1.1** Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yw gwella llesiant economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn amlygu saith nod llesiant a pum ffordd o weithio er mwyn rhoi pwrpas cyffredin i gyrff cyhoeddus.

**5.1.2** Mae sefydliadau cyhoeddus yng Ngwynedd ac Ynys Môn wedi cytuno i gydweithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a hynny trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn. Mae aelodau'r Bwrdd yn frwdfrydig dros newid ac yn arddangos parodrwydd i gydweithio ar brosiectau er mwyn gwireddu amcanion y Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn. Mae blwyddyn wedi mynd heibio ers i'r Cynllun Llesiant gael ei gyhoeddi, a dyma gyflwyno adroddiad sy'n amlinellu'r hyn a gyflawnwyd dros y flwyddyn ddiwethaf yn unol â'r blaenoriaethau a osodwyd ynddo. Mae'r adroddiad blynyddol yn amlygu bod gwaith o ddatblygu'r cynlluniau gweithredu wedi cychwyn gan y BGC[1] a bod gwaith pellach angen ei wneud yn y meysydd gwaith penodol. Gan edrych ymlaen at flwyddyn 2019/20 ac ymhellach, byddwn yn parhau i gydweithio hefo'n partneriaid a'n trigolion i gyfrannu at amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

### 5.2 Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

**5.2.1** Cyhoeddwyd y Cynllun Llesiant ym 2018. Ceir gadarnhad yn y Cynllun Llesiant o'r ddau amcan a chwe maes blaenoriaeth ble gytunwyd gall y Bwrdd gydweithio i sicrhau'r canlyniadau gorau i drigolion Gwynedd ac Ynys Môn. Cytunwyd felly ar feysydd blaenoriaeth sy'n gyffredin yn y ddwy Sir a bydd y BGC yn ymateb i'r materion yma ar y cyd ar draws y ddwy Sir. Er mwyn symud y gwaith yn ei flaen o fewn y meysydd blaenoriaeth mae is-grwpiau wedi eu sefydlu.

**5.2.2** Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r is-grwpiau wedi gweithredu yn unol â'r pum egwyddor datblygu gynaliadwy cenedlaethol (isod). Cytunodd y Bwrdd trwy'r Cynllun Llesiant eu bod am ychwanegu dwy egwyddor sy'n bwysig i drigolion Gwynedd ac Ynys Môn Sef yr Iaith Gymraeg a Chydraddoldeb. Bydd pob un o'r is-grwpiau yn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn llinyn euraidd sy'n rhedeg drwy eu gwaith. Bydd yr is-grwpiau hefyd yn parhau i roi sylw i anghydraddoldeb ac anfantais trwy'r asesiadau effaith perthnasol. Mae'r egwyddorion yma yn creu fframwaith i'r Bwrdd gydweithio ar y blaenoriaethau, ystyried y gwersi a ddysgwyd o gamau gweithredu'r gorffennol a mynd i'r afael â rhai heriau bydd y gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu i'r dyfodol.

[1] Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

**Cydweithio** **Integreiddio** **Hir-dymor** **Cynnwys** **Atal**

**Amcan 1: Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir-dymor**

**Cydweithio** **Hir-dymor** **Cynnwys**

| Y Flaenoriaeth | Yr hyn a wnaethpwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Effaith bosib yn y Tymor byr, Canolig a Hir |
|---|---|---|
| **Iaith Gymraeg -** Byddwn yn cydweithio i gynyddu'r defnydd o'r Iaith Gymraeg o fewn cyrff cyhoeddus yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Byddwn yn hyrwyddo defnydd o'r Iaith Gymraeg fel yr iaith ddewis ar gyfer cyfathrebu ymysg sefydliadau cyhoeddus ar draws y ddwy sir**.** | Mae Is-grŵp yr Iaith Gymraeg wedi ei sefydlu a chytunwyd ar y meysydd gwaith canlynol:<br>▪ Rhannu arferion da ymysg y cyrff cyhoeddus<br>▪ Profiad y dinesydd<br>▪ Taith Ieithyddol Plentyn.<br><br>Penderfynodd yr Is-grŵp flaenoriaethu prosiect sy'n canolbwyntio ar arferion ieithyddol ymysg staff rhai o sefydliadau'r Bwrdd. Mae hyn yn cael blaenoriaeth gan y grŵp gan eu bod yn cydnabod y gall y gweithlu gynnig cyfleodd i ddefnyddio, ymarfer a dysgu'r Iaith Gymraeg.<br><br>Mae prosiect o'r teitl 'Arfer' wedi ei gymeradwyo gan y Bwrdd sy'n ceisio datblygu dealltwriaeth pam nad yw | **<u>Tymor byr</u>**<br><br>Newid arferion ieithyddol y cyfathrebu yng ngweithleoedd y cyrff cyhoeddus.<br><br>**<u>Tymor Canolig</u>**<br><br>Cynyddu'r defnydd o'r Iaith Gymraeg o fewn cyrff cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn.<br><br>Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel cyswllt cyntaf gyda gwasanaethau o'r cyrff cyhoeddus.<br><br>**<u>Tymor Hir</u>**<br><br>Cynyddu'r defnydd o Gymraeg o fewn ein |

| | | |
|---|---|---|
| | rhai pobl yn gwneud defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a'r bwriad yw cydweithio ar yr ymyriadau, gyda'r nod o annog mwy o ddefnyddwyr o'r Gymraeg o fewn y cyrff cyhoeddus. | cymunedau ehangach sy'n allweddol i ffyniant yr Iaith. |

**Cydweithio** **Hir-dymor** **Cynnwys**

| Y Flaenoriaeth | Yr hyn a wnaethpwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Effaith bosib yn y tymor byr, canolig a hir |
|---|---|---|
| **Cartrefi ar gyfer pobl leol-** Byddwn yn cydweithio gyda'r sector dai i sicrhau mwy o gartrefi addas a fforddiadwy yn y llefydd cywir er mwyn diwallu anghenion lleol. Byddwn yn cydweithio i sicrhau bod cartrefi yn rhai o ansawdd sy'n cwrdd ag anghenion trigolion. | Sefydlwyd yr Is-grŵp cartrefi ym Mehefin 2018 i annog y cydweithio rhwng sefydliadau o fewn y sector dai.<br><br>Mae cynlluniau datblygu tai arloesol yn cael eu datblygu yn y ddwy sir yn bresennol. Mae'r is-grŵp yn cynnig dod â chynlluniau'r cyrff cyhoeddus ynghyd, a sefydlu trefniadau i gydweithio er mwyn cyflawni mwy o gysondeb a gwneud defnydd mwy effeithiol o'n hadnoddau. | **<u>Tymor Byr</u>**<br><br>Cydweithio hefo'n cymunedau a'n partneriaid ar gynlluniau arloesol yn ein cymunedau.<br><br>**<u>Tymor Canolig</u>**<br><br>Datblygu prosiectau tai arloesol yng nghymunedau Gwynedd ac Ynys Môn<br><br>**<u>Tymor Hir</u>**<br><br>Cynnydd mewn effeithlonrwydd ynni a ddaw yn sgil cyflwyno tai o fodelau arloesol. Cyfrennir hyn gadarnhaol ar y newid yn ein hinsawdd ac effaith |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'r Is-grŵp Cartrefi wedi adnabod cyfle i gyrff cyhoeddus gydweithio er mwyn creu'r amodau i wneud defnydd ehangach o ddulliau tai arloesol. | gadarnhaol ar dlodi tanwydd.<br><br>Ystyrir y grŵp yn ogystal bod modd ystyried defnyddio modelau cartrefi arloesol i ddarparu tai ar gyfer ein poblogaeth sy'n heneiddio i wella darpariaeth y gwasanaeth iechyd a mynd i'r afael â dyheadau trawsnewid o fewn y sector iechyd. |

**Cydweithio** **Hir-dymor** **Integreiddio** **Cynnwys** **Atal**

| Y Flaenoriaeth | Yr hyn a wnaethpwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Effaith bosib yn y Tymor Byr, Canolig a Hir |
|---|---|---|
| **Effaith Newid Hinsawdd ar lesiant ein cymunedau:** Byddwn yn cydweithio yn lleol ac yn gweithredu ar y cyd i geisio lliniaru effaith newid hinsawdd ar ein cymunedau. | Mae'r Bwrdd wedi sefydlu is-grŵp newid hinsawdd sy'n cynnwys aelodaeth eang o'r cyrff cyhoeddus.<br><br>Y camau gweithredu cychwynnol sydd wedi eu hadnabod gan yr is-grŵp yw:<br><br>Cydweithio hefo'n rhanddeiliaid allweddol a chynllunio mewn modd cydgysylltiedig ar gyfer tywydd eithafol ac effeithiau newid hinsawdd bresennol a'r dyfodol. | **<u>Tymor Byr</u>**<br><br>Cydweithio i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth a dod i gonsensws ynglŷn â'r gweithredu mewn perthynas â'r effeithiau newid hinsawdd yn ein cymunedau.<br><br>**<u>Tymor Canolig / Tymor Hir</u>**<br><br>Bydd gan y BGC well dealltwriaeth o'r risgiau a'r effaith o newid hinsawdd a byddwn wedi cydweithio efo'n cymunedau i godi |

| | | |
|---|---|---|
| | | ymwybyddiaeth a chryfhau gwydnwch a'r sgiliau addasu i'r newidiadau tymor canolig a thymor hir. |

**Cydweithio** **Hir-dymor** **Atal**

| Y Flaenoriaeth | Yr hyn a wnaethpwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Effaith bosib yn y Tymor Byr, Canolig a Hir |
|---|---|---|
| **Effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau** – Byddwn yn datblygu'r ddealltwriaeth fanwl o sut mae tlodi yn effeithio ein hardaloedd ac yn ceisio sicrhau bod y gwaith sy'n digwydd yn y maes ar draws y cyrff cyhoeddus yn fwy effeithiol er mwyn lliniaru effaith hir dymor tlodi. | Sefydlwyd is-grŵp tlodi, ac er mwyn datblygu'r ddealltwriaeth o effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau cynhaliwyd gweithdy a gwahoddwyd amrediad eang o bartneriaid.<br><br>Fel man cychwyn mae'r BGC yn ystyried y gwaith tlodi sydd ar y gweill gan yr Awdurdodau Lleol, cyn ystyried sut gall y BGC weithio'n fwy integredig a chydlynus. | **<u>Tymor Byr A Chanolig</u>**<br><br>Bydd gwell dealltwriaeth gan y BGC o anghenion ein cymunedau<br><br>Darparu / Comisiynu ymyraethau a gwasanaethau sy'n ymateb i'r angen.<br><br>**<u>Tymor Hir</u>**<br><br>Partneriaid i weithio'n integredig a fwy effeithiol.<br><br>Creu cymunedau mwy gwydn sy'n gallu cynnal eu hunain a'u teuluoedd, ac ymdopi gyda rhwystrau a wynebir. |

## Amcan 2: Trigolion sy'n iach ac yn annibynnol gyda safon bywyd da

**Cydweithio** **Hir-dymor** **Integredig** **Cynnwys** **Atal**

| Y Flaenoriaeth | Yr hyn a wnaethpwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Effaith bosib yn y Tymor Byr, Canolig a Hir |
|---|---|---|
| **Iechyd a gofal oedolion**: Byddwn yn cydweithio â'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu cynllunio ar gyfer y boblogaeth hŷn yn addas ar gyfer anghenion lleol. Byddwn yn cydweithio yn lleol i gynllunio ystod eang o weithgareddau ataliol ar gyfer oedolion er mwyn eu galluogi i fyw yn iach ac annibynnol.<br><br>**Lles a llwyddiant plant a phobl ifanc:** Byddwn yn cyd-gynllunio gwasanaethau a gweithgareddau ataliol gefnogi teuluoedd cyn i'r angen am wasanaethau dwys godi. Byddwn yn annog plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i wella eu hiechyd er mwyn iddynt allu byw yn | Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Is-grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig i Wynedd ac Ynys Môn. Mae'r ddogfen 'Cymru Iachach' yn llywio trefniadau llywodraethu a chynlluniau'r Is-grŵp.<br><br>Mae'r is-grŵp wedi cytuno i ganolbwyntio ar y meysydd gwaith canlynol gyda'r ffocws ar wasanaeth ataliol a chydweithio mewn partneriaeth:<br>▪ Gwaith cymunedol trwy glystyrau<br>▪ Plant a Phobl Ifanc / Cefnogi Teuluoedd<br>▪ Iechyd Meddwl<br>▪ Anableddau Dysgu | <u>**Tymor Byr**</u><br><br>Trwy ymgynghori ac ymgysylltu hefo'n trigolion bydd gennym ddealltwriaeth o drefniadau iechyd a gofal sy'n ymateb i anghenion lleol.<br><br>Bydd trefniadau llywodraethu i gefnogi'r 4 maes gwaith wedi eu sefydlu.<br><br><u>**Tymor Canolig**</u><br><br>Byddwn yn parhau i weld cynnydd yn y 4 maes gwaith a chychwyn y broses o ail-ddylunio'r system iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br><u>**Tymor Hir**</u><br><br>Byddwn yn gweld gweithredu system iechyd a gofal newydd – a fydd yn hyrwyddo iechyd a |

| | | |
|---|---|---|
| iach ac annibynnol o fewn eu cymunedau hir dymor | | lles da yn ein cymunedau. Bydd y system yn cynnig amrywiaeth o opsiynau o safon uchel sy'n gallu cyfrannu at alluogi trigolion i ddefnyddio eu sgiliau byw yn annibynnol trwy weithio i'r egwyddor o'r hyn sy'n 'bwysig i'r unigolyn'. |

**5.2.3** Bydd yr adroddiad blynyddol ddrafft yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 12fed Fehefin er sylwadaeth, ac yna Pwyllgor Sgriwtini Ynys Môn ar 13eg Fehefin a Phwyllgor Craffu Gwynedd ar 4ydd Orffennaf. Bwriedir cyhoeddi'r adroddiad ym mis Gorffennaf 2019.

**5.2.4** Mae'r uchod yn dystiolaeth gychwynnol fod y BGC fel sefydliadau unigol, ac mewn ymdrechion ar y cyd yn parhau i ymrwymo i wella llesiant Gwynedd ac Ynys Môn. Er bod adnoddau'r cyrff cyhoeddus o dan bwysau a bod bygythiadau pellach o doriadau mae'r BGC yn adnabod cyfleoedd i weithio mewn ffyrdd gwahanol a chyflwyno dulliau arloesol o weithredu. Gyda chefnogaeth y cyrff cyhoeddus a'u staff, ein trigolion a phartneriaid ehangach gallwn barhau ar y daith o greu cymunedau yng Ngwynedd ac Ynys Môn sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir dymor a rhoi cyfle i'n trigolion fyw yn iach ac annibynnol gyda safon bywyd da. Bydd y BGC hefyd yn ystyried dulliau i reoli perfformiad a phennu dangosyddion perfformiad.

**5.3 Trefniadau Craffu**

**5.3.1** Mae'r Ddeddf Llesiant a'r canllawiau cenedlaethol cysylltiedig[2] yn nodi 3 rôl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini Awdurdodau Lleol wrth ddarparu atebolrwydd democrataidd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Adolygu trefniadau llywodraethu'r BGC
- Ymgynghorai statudol ar yr Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant
- Monitro cynnydd ymdrechion y BGC wrth weithredu'r Cynllun Llesiant

**5.3.2** Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn destun craffu gan Bwyllgor craffu / sgriwtini dynodedig awdurdodau lleol Gwynedd ac Ynys Môn yn bresennol. Cytunwyd ar sefydliad Y BGC bydd panel craffu ar y cyd rhwng y 2 sir yn cael ei ddatblygu i wneud y gwaith yma ar draws Gwynedd ac Ynys Môn. Mae swyddogion craffu Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn rhoddi sylw i'r camau gweithredu allweddol mewn perthynas â sefydlu panel ar y cyd yn ystod y misoedd nesaf.

| 6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg] |
|---|
| **6.1** Bydd yr is-grwpiau cyflawni yn paratoi asesiadau effaith cydraddoldeb ac ieithyddol, ble mae hynny'n briodol, i gyd-fynd a'u cynlluniau gweithredu. Bydd yr |

[2] Canllawiau ar gyfer Pwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol ar graffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

| |
|---|
| asesiadau effaith yn ddogfennau byw fydd yn newid a datblygu ochr yn ochr â’r gwaith cyflawni. |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
|---|
| - |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| 1. Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol**<br>**Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **3 Mehefin, 2019**<br>**13 Mehefin, 2019** |
| **Pwnc:** | **Aelodaeth o'r Panel Sgriwtini Cyllid** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Adolygu aelodaeth y Panel Sgriwtini Cyllid** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng. Aled Morris Jones**<br>**Cyng. Gwilym Owen Jones** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng. Robin Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Amherthnasol** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| **A1** Gofynnir i'r **ddau Bwyllgor Sgriwtini** enwebu 1 Aelod ychwanegol i eistedd ar y Panel Sgriwtini Cyllid. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| |

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

| 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
|---|
| Amherthnasol. |

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. **Cefndir**

Bydd yr aelodau'n ymwybodol i'r Panel Sgriwtini Cyllid gael ei sefydlu ar ôl yr etholiad llywodraeth leol diwethaf[1] fel is-banel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, gyda'r amcanion canlynol:

- Datblygu model o weithio ar faterion cyllid gan ganolbwyntio ar grŵp llai i alluogi Aelodau i chwarae mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd, annog presenoldeb da a gwaith tîm
- Fforwm i drafod gwybodaeth ynglŷn â risgiau ariannol y Cyngor, fel sail i gyfrannu at flaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Rhyddhau lle ar agenda cyfarfodydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol er mwyn sicrhau bod materion trawsnewid a strategol yn cael eu craffu
- Fforwm i ddatblygu grŵp o aelodau a chanddynt yr arbenigedd a'r berchnogaeth i arwain trafodaethau ariannol yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

2. **Aelodaeth Gyfredol**

Mae aelodaeth gyfredol y panel yn cynnwys 2 Aelod o bob un o'r pwyllgorau sgriwtini, fel a ganlyn:

i. **Yn cynrychioli'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol**

- Cynghorydd Aled Morris Jones
- Cynghorydd Dylan Rees

ii. **Yn cynrychioli'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio**

- Cynghorydd Dafydd Roberts (Cadeirydd y Panel)
- Cynghorydd Alun Roberts

3. **Y cynnig i gynyddu aelodaeth y Panel**


3.1 Ers yr etholiadau llywodraeth leol yn 2017, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio'n galed i gyflwyno trefn mwy trylwyr o atebolrwydd sy'n cael ei harwain gan aelodau, trwy strwythur sgriwtini diwygiedig. Fel rhan o'r strwythur hwn, mae'r Aelodau'n parhau i fuddsoddi mewn a chyfrannu'n frwd at sgriwtini trwy waith ein 3 phanel sefydlog[2]. Nid yw'r Panel Sgriwtini Cyllid yn eithriad i hyn.

3.2 **Hunanwerthuso ac adolygu cynnydd**

Rydym wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â CIPFA Cymru i ddatblygu ein model sgriwtini ariannol gyda'r amcanion canlynol mewn golwg:

[1] Etholiadau Llywodraeth Leol, Mai 2017

[2] Y Panel Gwella Gwasanaethau Plant, Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion, Panel Sgriwtini Cyllid




Rydym wedi derbyn adborth gan CIPFA ar ein taith ddatblygu ar ddwy garreg filltir allweddol – ym mis Ebrill, 2018[3] ac yn ail fel rhan o'r ymarfer oedi ac adolygu gan y Panel ar ddiwedd 2018[4]. Mae'r Panel wrthi'n cynnal hunanwerthusiad diwedd blwyddyn ar hyn o bryd er mwyn adolygu, myfyrio a dysgu o'n taith hyd yma. Mae'n deg dweud fod y cwestiwn ynglŷn â'r nifer presennol o aelodau sy'n eistedd ar y Panel Sgriwtini Cyllid wedi cael ei drafod ar sawl achlysur gan y Panel dros y misoedd diwethaf. Argymhellwyd y dylid ychwanegu 2 aelod arall at aelodaeth bresennol y Panel – un o bob un o'r pwyllgorau sgriwtini. Byddai cynyddu aelodaeth y panel o 4 i 6 yn cynyddu capasiti ac yn galluogi trefn fwy cadarn o sgriwtini ariannol.

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** **[gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Amherthnasol |

| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
|---|
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**Y Cyng. Dafydd Roberts**
**Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid**
**Dyddiad: 17/05/19**

[3] Ym mis Ebrill, 2018 yn ystod paratoi Adroddiad Sgriwtini Blynyddol 2017/18
[4] Fel rhan o'r ymarfer oedi ac adolygu gan y Panel ar ddiwedd 2018

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

SGRIWTINI

**PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO: 2017/2018 → 2019/2020**

Cadeirydd: Cynghorydd Gwilym O Jones
Is-Gadeirydd: Cynghorydd Robert Llewelyn Jones

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio am y cyfnod Mai 2017 ymlaen, fel rhaglen dreigl a theclyn cynllunio pwrpasol. Adroddir ar y blaen raglen waith i bob cyfarfod arferol o'r Pwyllgor Sgriwtini i'r pwrpas o adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio / dynnu eitemau yn ôl. Ei phwrpas hefyd ydy sicrhau aliniad gyda blaen raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Cyswllt: Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752039
E-bost: gwrce@ynysmon.gov.uk

 Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllfgor Gwaith/ Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2017** | | | | | | |
| **Mai, 2017** | | | | | | |
| **31 Mai 2017**<br><br>Ystafell Pwyllgor 1 /3.30yh | Ethol Cadeirydd | Ethol Cadeirydd | | | | |
| | Ethol Is Gadeirydd | Ethol Is Gadeirydd | | | | |
| **Mehefin, 2017** | | | | | | |
| **27 Mehefin 2017**<br><br>Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh | Adroddiad Blynyddol Cymunedau yn Gyntaf | Monitro perfformiad | | | | |
| | Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid | Gwybodaeth/ monitro perfformiad | | | | |
| | Aelodaeth Paneli a Byrddau | Enwebu Aelodaeth | | √ (Aelodau) | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| **Hydref, 2017** | | | | | | |
| **9 Hydref 2017**<br><br>Ystafell Pwyllgor 1 / | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol | Monitro perfformiad | | | | |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Datblygu Cynllun Llesiant Môn a | Monitro perfformiad/datblygu polisi | | | | |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllfgor Gwaith/ Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2yh | Gwynedd) | | | | | |
| | Adroddiad Blynyddol Cyflwyniadau yn erbyn Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid | Monitro perfformiad | | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| **Tachwedd, 2017** | | | | | | |
| **14 Tachwedd 2017**<br><br>Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh | Cynllun Llesiant Drafft - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd (Diweddariad) | Datblygu Polisi | | | | |
| | Trawsnewid Gwasanaethau Diwylliant | Sgriwtini cyn penderfyniad | | | | √ |
| | Adroddiad ar y Gymraeg o fewn y Weinyddiaeth Fewnol | Monitro perfformiad | | | | |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad | √ | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| **2018** | | | | | | |
| **Chwefror, 2018** | | | | | | |
| **6 Chwefror 2018** | Adroddiad - Perfformiad Ysgolion Môn2016 -2017 | Monitro perfformiad | | | | |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllfgor Gwaith/ Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh | GwE- Adroddiad Blynyddol 2016/2017 | Monitro perfformiad | | | | |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad | √ | | | |
| | Aelodaeth Panel Sgriwtini – Adolygu Cynnydd Ysgolion | - | | √ (Aelodau) | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| **Mawrth, 2018** | | | | | | |
| **8 Mawrth, 2018**<br><br>Siambr y Cyngor / 2yh | Cynllun Llesiant Drafft - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd | Datblygu Polisi | | | | √ |
| | Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid | Datblygu Polisi | | | | √ |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| **Ebrill, 2018** | | | | | | |
| **10 Ebrill 2018**<br><br>Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh | Partneriaeth Angenion Addysgol Ychwanegol –Gwynedd a Môn | Monitro perfformiad | | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| **Mehefin, 2018** | | | | | | |
| **19 Mehefin, 2018** | Aelodaeth Panel Sgriwtini Cyllid a Bwrdd Trawsnewid Addysg | - | | √ | | |

Tudalen 112

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllgor Gwaith/ Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | (Aelodau) | | |
| Ystafell Pwyllgor 1/2yh | Adroddiad Blynyddol Cymunedau yn Gyntaf | Monitro perfformiad | | | | |
| | Cynlluniau Adfywio Cymunedol – Amlwch a Biwmaris | Monitro Perfformiad | | | | |
| | Sgriwtini o Bartneriaethau | Monitro perfformiad (Pendnderfyniad Pwyllgor Sgriwtini Corfforathol 2/10/17) | | √ (Aelodau) | | |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad | √ | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| **Gorffennaf, 2018** | | | | | | |
| **9 Gorffennaf 2018** | Medrwn Môn | Monitro Perfformiad | | | | |
| Ystafell Pwyllgor 1/2yh | Strategaeth Gwrthdlodi | Datblygu Polisi | | | | √ |
| **Medi, 2018** | | | | | | |
| **24 Medi 2018** | Adroddiad Blynyddol -Bwrdd | Monitro perfformiad | | | | |

| **Dyddiad Cyfarfod** | **Eitem** | **Pwrpas** | **Mewnbwn Panel Sgriwtini** | **Ymgysylltu** | **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | **Pwyllfgor Gwaith/ Cyngor Llawn** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ystafell Pwyllgor 1/2yh | Partneriaeth Rhanbarthol ( Iechyd a Gofal Cymdeithasol) | | | | | |
| | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol | Monitro perfformiad | | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | | | √ (Aelodau) | | |
| **Hydref, 2018** | | | | | | |
| **15 Hydref 2018**<br><br>Ystafell Pwyllgor 1/2yh | Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru | Ymgynghoriad | | √ (Holl Rhanddeiliaid) | | |
| | Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru | Monitro Perfformiad | | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | | | √ (Aelodau) | | |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllgor Gwaith/ Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tachwedd, 2018** | | | | | | |
| **13 Tachwedd 2018**<br><br>Ystafell Pwyllgor 1/2yh | Enwebu Aelod i'r Panel Sgriwtini Cyllid | - | | √ (Aelodau) | | |
| | Strategaeth Rhanbarthol Digartrefedd | Sgriwtini cyn penderfyniad | | | | √ |
| | Partneriaeth Angenion Addysgol Ychwanegol –Gwynedd a Môn | Monitro perfformiad | | | | |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus –sgriwtini cychwynol o'r drefn lwodraethol a'r strwythur gweithredu y BGC | Monitro perfformiad | | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| **Rhagfyr, 2018** | | | | | | |
| **12 Rhagfyr 2018**<br><br>Ystafell Pwyllgor 1/2yh | Adroddiad – Safonau Ysgolion Môn 2017-2018 | Monitro perfformiad | | | | |
| | GwE- Adroddiad Blynyddol 2017/2018 | Monitro perfformiad | | | | |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad | √ | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllfgor Gwaith/ Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2019** | | | | | | |
| **Chwefror , 2019** | | | | | | |
| **5 Chwefror 2019**<br><br>Ystafell Pwyllgor 1/ 2yh | Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9) -Rol a chefndir y bwrdd ai ddylanwad ar feysydd penodol yn Ynys Mon | Cais Pwyllgor(24/9/18) | | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √<br>(Aelodau) | | |
| **Mawrth, 2019** | | | | | | |
| **12 Mawrth 2019**<br>Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh | Cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor ar gamau nesaf –Ffocws ar meysydd cyd weithio yn y cymuned | Monitro perfformiad | | | | |
| | Bwrdd Gwasdanaethau Cyhoeddus- craffu cynnydd ar gweithredu'r Cynllun Llesiant | Monitro perfformiad | | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √<br>(Aelodau) | | |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllfgor Gwaith/ Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ebrill, 2019** | | | | | | |
| **9 Ebrill 2019**<br><br>Ystafell Pwyllgor 1/2pm | Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy | Craffu cyn Penderfyniad | | | | |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad | √ | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| **Mehefin, 2019** | | | | | | |
| **13 Mehefin 2019**<br><br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yh | Cytundeb Rheoli Gwastraff | Craffu cyn Penderfyniad | | | | |
| | Partneriaeth Angenion Addysgol Ychwanegol - Gwynedd a Môn | Monitro perfformiad | | | | |
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Monitro Perfformiad | | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |



 Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllgor Gwaith/ Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Gorffennaf, 2019** | | | |
| **11 Gorffennaf 2019** **[Cyfarfod Arbennig]** Ystafell Bwyllgor 1 / 2yh | Trawsnewid Gwasanaethau Gofal â Chefnogaeth (anableddau dysgu) | Craffu cyn Penderfyniad | | | | |
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Rhan 9: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) | Monitro Perfformiad | | | | |
| | Sgriwtini o Bartneriaethau – Mesur Effaith (Uned Sgriwtini) | Hunan asesiad | | | | |
| | Forward Work Programme | Review | | √ (Members) | | |
| | | | **Medi, 2019** | | | |
| **23 Medi 2019** Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Annual Report: Galw Gofal (I'w gadarnhau) | Monitro Perfformiad | | | | |
| | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol | Monitro perfformiad | | | | |
| | Monitro Contractau Gwasanaethau Cymdeithasol (i'w gadarnhau) | Monitro perfformiad | | | | |
| | Strategaeth ar gyfer cyfleon dydd anableddau dysgu (camau nesaf) | Craffu cyn Penderfyniad | | | | |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad | √ | | | |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllfgor Gwaith/ Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| | | **Tachwedd, 2019** | | | | |
| **12 Tachwedd 2019** Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh | Partneriaeth Angenion Addysgol Ychwanegol -Gwynedd a Môn | Monitro perfformiad | | | √ | |
| | Galw Gofal ( Gwasanaethu Cymdeithasol Oedolion) (I'w gadarnhau) | Monitro Perfformiad | | | | |
| | Adroddiad ar Ddefnydd Iaith Gymraeg yn Weinyddiaeth fewnol | Monitro Perfformiad | | | | |
| | Medrwn Môn | Monitro perfformiad | | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| | | **2020** | | | | |
| | | **Chwefror, 2020** | | | | |
| **4 Chwefror 2020** Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| | | **Mawrth, 2020** | | | | |
| **10 Mawrth 2020** | Cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor ar gamau nesaf ('w | Monitro perfformiad | | | | |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllgor Gwaith/ Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh | gadarnhau) | | | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| **Ebrill, 2020** | | | | | | |
| **7 Ebrill 3020** Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh | Partneriaeth Angenion Addysgol Ychwanegol -Gwynedd a Môn | Monitro perfformiad | | | | |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad | √ | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |



| **EITEMAU I'W RHAGLENNU** | |
|---|---|
| **i'w gadarnhau** | Moderneiddio'r Gwasanaeth Hamdden Anstatudol (Craffu cyn penderfyniad) ) |
| **i'w gadarnhau** | Tai Gofal Ychwanegol ( Ardal Seiriol) – Adroddiad ar y cyd: Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, Oedolion |
| **i'w gadarnhau** | Fargen Twf Gogledd Cymru |
| **i'w gadarnhau** | Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru: Ardal Ynys Môn |
| **i'w gadarnhau** | Heddlu Gogledd Cymru:Ardal Ynys Môn |
| **i'w gadarnhau** | Gwasanaeth Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru |
| **i'w gadarnhau** | Gwahoddiad i Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **i'w gadarnhau** | Trefniadau Sgriwtini - Bwrdd Gwasanethau Cyhoeddus |
| **i'w gadarnhau** | Adroddiad – Safonau Ysgolion Môn 2018-2019 ( cyfarfod arbennig yn Rhagfyr 2019 ?) |
| **i'w gadarnhau** | GwE- Adroddiad Blynyddol 2018/2019 ( cyfarfod arbennig yn Rhagfyr 2019 ?) |
| **i'w gadarnhau** | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) ( cyfarfod arbennig yn Rhagfyr 2019 ?) |

Tudalen 131

This page is intentionally left blank